

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 21/01/25

**Teitl:** Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 25/26 a'r rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

**Pwrpas yr adroddiad:** Ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw Ddrafft 25/26 a chael diweddariad ar y rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

## Er Penderfyniad

### **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

Y Cyngorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor

Y Cyngorydd Gareth Davies Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael

## 1. **Crynodeb Gweithredol**

Ar 11/12/24, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 25/26. **Mae Ceredigion wedi derbyn cynnydd ariannol o 3.6% (sy'n golygu ein bod yn y 15fed safle o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru).** Yn anffodus, mae hyn hefyd yn golygu mai Ceredigion sydd wedi derbyn **y cynnydd isaf y pen o'r boblogaeth** ar draws Cymru gyfan.

Er bod lefel y cynnydd yn uwch na'r hyn sydd wedi'i fodelu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, os caiff sefyllfa Ceredigion ei chymharu â'r Awdurdodau Lleol eraill, ceir teimlad enfawr o siom a theimlad bod annhegwch o hyd o ran y dirwedd gyllido. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n ffurfiol ei bod yn *'agored i ystyried darparu cyllido gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol'*.

Er bod chwyddiant bellach wedi cwmpo o ffigurau dwbl i ffigurau sengl, mae'r pwysau ar y gwasanaethau o ran costau yn parhau'n uchel. Ar hyn o bryd, mae lefel chwyddiant cyllideb Ceredigion tua 6.5%.

Mae dal angen gwneud dewisiadau anodd o ran y gyllideb gan gynnwys pwysu a mesur sut i leihau costau gwasanaethau'r Cyngor, yn ogystal ag ystyried y lefel briodol o gyllid y gellid ei chodi drwy Dreth y Cyngor. Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ym mis Hydref 2024 yn glir *'na fydd y cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor sydd wedi'i fodelu yn ddigonol i gydbwysu'r gyllideb'* a dyma yw'r sefyllfa o hyd.

Dyma'r pwyntiau allweddol yn yr adroddiad hwn:

- Amcangyfrifir bod y **pwysau o ran y costau refeniw diweddaraf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn £11.8m ar gyfer 25/26** (ac eithrio elfen Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor sy'n amrywio yn unol ag ystyriaethau Treth y Cyngor). Mae hyn yn cyfateb i **ffactor chwyddiant penodol o 6.1% ar gyfer Ceredigion**. 2.6% yw'r ffigwr chwyddiant yn gyffredinol (ffigwr y CPI - Tachwedd 2024).
- Bydd **newidiadau'r Canghellor i gyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr** o fis **Ebrill 2025 ymlaen** yn faich aruthrol ar y Cyngor ac mae'n newidyn allweddol yn y gyllideb wrth ystyried y pwysau o ran costau. Bydd y cynnydd hwn yn arwain at gost o tua £3m i'r Cyngor o ran y costau yr ystyrir eu bod yn rhai 'Uniongyrchol'. (Staff cyflogedig sy'n dod o dan ddiffiniad 'y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Gyflogeion y Sector Cyhoeddus) a thua £1m o ran costau yr ystyrir eu bod yn rhai "Anuniongyrchol" (y baich o ran costau ar ddarparwyr a gomisiynwyd yn y maes Gofal Cymdeithasol) – **cyfanswm felly o tua £4m**. Ar hyn o bryd, nid yw'r union gyllid wedi'i gadarnhau ac nid yw'r sefyllfa'n debygol o fod yn glir tan chwarter cyntaf 25/26. Felly, mae lefel dybiedig o 80% o gyllid tuag at gostau 'Uniongyrchol' wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrifon ar gyfer cyllideb 25/26.
- Y prif ffactorau sy'n arwain at y **gost ychwanegol o £2.4m o ran gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynwyd yn allanol** yw'r newidiadau yng nghyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr a'r gost o barhau i gyflawni **Polisi Llywodraeth Cymru** gan sicrhau bod y **Cyflog Byw Gwirioneddol** (cynnydd o 5.0% i £12.60 yr awr) yn cael ei dalu i **staff gofal cymdeithasol cofrestredig**. Mae hyn yn ymwneud â'r ystyriaethau ynghylch cynyddu cost ffioedd yn 25/26 ar gyfer sectorau allweddol megis Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol, lleoliadau Byw â Chymorth a lleoliadau preswyl i Bobl Hŷn.
- Mae galwadau a phwysau ehangach ar **gyllidebau sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol** - cyfanswm o tua £1.4m ar ben dyfarniadau cyflog y gweithwyr, cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr a'r darpariaethau o ran cynnydd mewn costau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol. Serch hynny, y prif bryder o hyd yw cyllideb y **Lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir**, lle mae angen cydnabod y pwysau o ran cost sydd ychydig o dan £2.0m oherwydd y cynnydd yn nifer y lleoliadau a chost y lleoliadau ar gyfartaledd.
- Mae'r Cabinet yn cynnig darparu buddsoddiad yng nghyllideb sylfaenol dau wasanaeth i gydnabod yr angen am sefydlogrwydd yn y gwasanaethau hynny a buddsoddiad sydd wedi'i dargedu er mwyn cyflawni canlyniadau. Cynigir buddsoddiad o ychydig yn llai na £0.5m yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff (Sbwriel) ac mae'r opsiwn o naill ai buddsoddi £230k neu £346k yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio yn cael ei ystyried.
- Mae **Llywodraeth y Deyrnas Unedig** yn parhau i gynyddu'r **Cyflog Byw Cenedlaethol** (cynnydd o 6.7% i £12.21 yr awr). Mae dyfarniadau cyflog i weithwyr wastad yn newidyn allweddol yn y gyllideb, ond nid Cyngor Sir Ceredigion sy'n eu pennu. Rhagdybir y bydd y **dyfarniadau cyflog ar gyfer 25/26** yn llai na'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf ond amcangyfrifir y **bydd y gost tua £2.9m**. Os mai dyma fyddai lefel y dyfarniad cyflog, byddai pwynt cyflog isaf y Cyngor yn codi o £12.26 (Ebrill 2024) i £12.63 (Ebrill 2025) a byddai hyn felly ychydig yn uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

- Mae manylion nifer o **grantiau penodol yn dal heb eu cadarnhau**. O ystyried y newidiadau yng nghyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr a'r dyfarniadau cyflog, byddai gweld gwerth ariannol unrhyw grant/grantiau yn aros yn union yr un fath yn arwain at sefyllfa heriol i'r gwasanaethau. Un o'r grantiau sydd wedi'i gadarnhau yw **dyraniad Ceredigion o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig ar gyfer 25/26 sef £5.0m**. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn 43% yn llai na'r cyllid o £8.8m a gafwyd ar gyfer 24/25. Y rheswm am hyn yw'r newid yn y fethodoleg ar gyfer dyrannu a'r gostyngiad cyffredinol yn y cyllid ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn drosiannol hon.
- Bwriad y Cabinet yw sicrhau bod digon o gyllid yng Nghyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion yn gyffredinol i ariannu effaith dyfarniadau cyflog 24/25, effaith dybiedig dyfarniadau cyflog 25/26, effaith y newidiadau o ran cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen a'r angen i ariannu'n llawn y cynnydd yng Nghyfradd y Cyflogwr o ran Pensiwn Athrawon o fis Ebrill 2024. Effaith hyn felly fydd **cynnydd o 5.1% yng Nghyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion** (ac eithrio'r cyllid a drosglwyddir i'r Setliad Dros Dro) **a fydd yn codi i 8.3%** unwaith y bydd y cyllid a drosglwyddir i'r Setliad Dros Dro ac a fydd yn cael ei symud draw wedi'i gynnwys (ar gyfer Cyflog a Phensiynau Medi 2024). Ar lefel ysgolion unigol, bydd nifer y disgyblion yn effeithio ar y sefyllfa.
- Mae'r cynnydd a gynigir gan **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** ar gyfer yr **ardoll Tân** sy'n rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion yn is na'r hyn a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r cynnig presennol yn arwain at gynnydd o 7.3% yng nghost bresennol y Cyngor o ran yr ardoll tân sef £5.4m a byddai'n cyfateb i tua 0.6% ar Dreth y Cyngor.
- Bydd y cynnydd o **10.5% yn y cyllid Cyfalaf craidd** oddi wrth Lywodraeth Cymru o rywfaint o gymorth o ystyried y galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yng nghyswllt y **Rhaglen Gyfalaf** – bydd y cynnydd hwn yn cyfateb i **£612k yn ychwanegol**. Serch hynny, mae lefel y cyllid cyfalaf craidd (sy'n £6.5m ar gyfer 25/26) dal i fod yn is mewn termau ariannol na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl. Mae disgwyl **swm arall o tua £2.3m** oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn gwelliannau ar y priffyrdd yng Ngheredigion.
- Ym mis Rhagfyr 2023, cytunodd y Cyngor i gynyddu premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar **Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag hirdymor** gan wneud hynny fesul cam. Bydd yr ail gam sef cynyddu'r premiwm i **150% yn dod i rym ym mis Ebrill 2025**. Amcangyfrifir y bydd y penderfyniad hwn yn darparu £1.1m ar gyfer Cyllideb 25/26 a fydd yn golygu felly y bydd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ychydig yn llai. Noder y bydd £2.0m yn parhau ar gael bob blwyddyn ar gyfer y Cynllun Tai Cymunedol – Rhannu Ecwiti [Y Cynllun Tai Cymunedol - Rhannu Ecwiti](#)
- Mae'r **Gofyniad drafft cyfredol ar Gyllideb 25/26 naill ai yn £209.109m neu'n £209.234m**, yn dibynnu ar lefel y buddsoddiad yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio.
- **Lefel Treth y Cyngor Band D bresennol yng Ngheredigion** (i bob cydran) **ar gyfer 24/25** yw £2,103.89 sydd 3.9% yn uwch na Threth y Cyngor

cyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £2,024.31. Mae lefelau Treth y Cyngor cyfartalog yng Nghymru dal yn is na'r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol yn Lloegr (£2,248 ar gyfer 24/25). Mae elfen bresennol y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor Band D 24/25 gwerth £1,726.05 (sef ychydig dros 80% o'r bil cyfan).

- Mae'r Cabinet yn ymwybodol bod tua 85% o'r holl anheddau trehadwy yng Ngheredigion yn perthyn i Fandiau A i E. Mae ffigurau cyfredol Cyllideb ddrafft 25/26 yn nodi **cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o oddeutu £14 y mis** ar gyfer eiddo Band D.
- Mae cryn dipyn o lobïo yn cael ei wneud gerbron Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddadlau'r achos y dylai **Cyllid Gwaelodol (Funding Floor), heb fod yn llai na 4.3%**, fod yn rhan o Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 25/26. Ar y lefel hon, byddai modd i'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yng Ngheredigion fod tua 2% yn is.

Pan gyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru achos Llywodraeth Leol gerbron Llywodraeth Cymru, tynnodd sylw at y ffaith fod y sector cyfan yn wynebu pwysau o £559m o ran costau ar draws Cymru yn 25/26. Roedd hyn cyn i'r canghellor gyhoeddi'r cynnydd yng nghostau cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr a fydd (yn ôl ffigurau dangosol) yn ychwanegu swm gros arall o tua £150m ar draws Cymru. Mae Setliad Dros Dro 25/26 yn darparu cynnydd o £253m yn y cyllid sydd ar gael. Mae hyn felly yn is o dipyn na'r hyn y mae ei angen ar y sector i fod yn gynaliadwy. Hefyd, mae Archwilio Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi adroddiad cenedlaethol sy'n dod i'r casgliad bod *'sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn anghynaliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu'*.

Mae Setliad Dros Dro 25/26 yn darparu ystod eang o ganlyniadau cyllido ar gyfer awdurdodau gwahanol. Mae Cyngor Casnewydd yn derbyn cynnydd o 5.6% yn ei gyllideb ac mae Cyngor Caerdydd yn derbyn cynnydd o 5.3% yn ei gyllideb. Ar y llaw arall, mae Ceredigion ac awdurdodau cyfagos yn wynebu llai o gynnydd yn eu cyllidebau (cynnydd o 3.1% ar gyfer Gwynedd, 3.3% ar gyfer Powys, 3.5% ar gyfer Sir Benfro a 4.2% ar gyfer Sir Gâr).

**Yn gyffredinol, nid yw Setliad 25/26 cyn ised â'r hyn a ddisgwyliid ac mae'r Cabinet felly yn disgwyl y bydd y cynnydd yn nhreth y Cyngor yn is na'r hyn a welwyd yn y flwyddyn bresennol. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cyllid Gwaelodol yn cael ei roi ar waith a fydd o fudd i Geredigion, gan ei bod yn eithaf amlwg bod Ceredigion fel awdurdod mwy gwledig a llai o faint ar ei cholled o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, yn enwedig y rheiny yn Ne-ddwyrain Cymru.**

Hefyd, cydnabyddir nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol am weld gwasanaethau yn cael eu lleihau ymhellach. Fodd bynnag, er mwyn ceisio sicrhau na fydd hynny'n digwydd, bydd angen i Dreth y Cyngor yn lleol ysgwyddo mwy o'r baich. Ni fydd cyflwyno cynnydd bach yn Nhreth y Cyngor ac ar yr un pryd cynnal a chadw'r holl wasanaethau presennol yn sicrhau cyllideb gytbwys. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei wasanaethau yn effeithlon ac yn effeithiol, felly byddai peidio ag addasu gwasanaethau, pan fo dulliau mwy arloesol ac effeithlon o'u darparu ar gael, yn tanseilio ymdrechion i sicrhau gwelliant parhaus a gwerth am arian i'r trethdalwr.

**Mae'r her ariannol i'r Cyngor yn y tymor canolig a'r hirdymor yn parhau'n un sylweddol ac felly mae'r sgôr uchaf posibl wedi'i nodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'n hynod o debygol, oherwydd y rhagolygon ehangach ynghylch cyllid cyhoeddus, y bydd maint yr her o ran y gyllideb yn dwysáu yn 26/27 a thu hwnt i hynny. Bydd hyn yn dibynnu ar ddatganiad ariannol nesaf y Canghellor, y mae disgwyl iddi ei thraddodi ar 26/03/25. Ar ôl hynny, byddwn yn diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.**

## 2. Cefndir

### a) Pennu'r Gyllideb yn 24/25

Bydd yr Aelodau'n cofio'r broses hynod heriol o osod Cyllideb 24/25. Roedd yr agweddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Cynnydd o tua 2.9% yng nghyllid craidd Llywodraeth Cymru drwy Setliad Llywodraeth Cymru
- Pwysau o £18m o ran costau (a oedd yn cyfateb i ffactor chwyddiant penodol o 10%).
- Roedd hyn yn cynnwys effaith y Cyflog Byw Gwirioneddol ar ddarparwyr ym maes gofal cymdeithasol a dyfarniadau cyflog uwch a bennwyd yn genedlaethol.
- Cynnydd o 3.1% yng Nghyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion.
- 70 o gynigion ar gyfer sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb – angen canfod £5.8m o arbedion.
- Cynnydd o 12% yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (a oedd yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor)
- Cynnydd o 11.1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer elfen Ceredigion.
- Ailystyried lefel Premiymau Treth y Cyngor ar Eiddo Gwasg Hirdymor ac Ail Gartrefi, gan gynnwys dull haenog ar gyfer Eiddo Gwasg Hirdymor a dull graddol ar gyfer Ail Gartrefi.

### b) Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Diweddarwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn haf 2024 a chafodd y manylion eu hystyried fel rhan o'r broses ddemocrataidd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024. Roedd yr achos canolog ar gyfer 25/26 yn seiliedig ar gynnydd o 0.5% yng nghyllid Llywodraeth Cymru a Threth y Cyngor wedi'i fodelu ar 5%.

O ganlyniad, **rhagwelwyd bwlch dangosol o £8.0m yn y Gyllideb ar gyfer 25/26**, fel rhan o gyfanswm bwlch dangosol yn y Gyllideb o £17.1m ar draws y cyfnod o 3 blynedd rhwng 25/26 a 27/28. Bryd hynny roedd disgwyl i bwysau ar y Gyllideb ddechrau llacio yn ôl o £18m i ychydig o dan £12m ar gyfer 25/26 wrth i chwyddiant ddechrau gostwng. Mewn gwirionedd, mae'r pwysau cyllidebol wedi codi'n ôl uwchben y lefel hon, yn bennaf oherwydd effaith newidiadau'r Canghellor o ran cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr.

### c) Y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn 24/25

Mae'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn 24/25 yn cael ei rheoli mewn modd sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol er gwaetha'r heriau sy'n ymwneud â Chyllideb 24/25. Mae'r sefyllfa yn cael ei hadrodd yn rheolaidd drwy'r adroddiadau monitro ariannol chwarterol sy'n mynd gerbron y Cabinet ac mae diweddariadau am y statws BRAG yn cael eu hadolygu'n fisol gan y Grŵp Arweiniol. Hefyd, erbyn hyn mae gwybodaeth ariannol yn cael ei hadrodd yn ffurfiol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r sefyllfa yn cynnwys rhywfaint o lithriant o ran cyflawni'r Gostyngiadau yn y Gyllideb. Yn Chwarter 3, ceir 2 eitem Goch sef cyfanswm o £0.5m (Lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir a'r ffaith nad oes dim newid wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o ran y cap o £100 yr wythnos y gellir ei godi ar gyfer Gofal Cymdeithasol Amhreswyl). Mae hyn yn cael ei reoli ac ni fydd hon yn broblem sylweddol oni bai bod penderfyniadau ffurfiol yn cael eu gwneud i beidio â gweithredu'r Gostyngiadau yn y Gyllideb.

Yn ogystal, ar 06/12/24, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Leol. O ran Ceredigion, mae hyn yn cynnwys cyllid i gynorthwyo â'r dyfarniadau cyflog (£1.263m ar gyfer staff sy'n dod o dan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (yr NJC) a £388k ar gyfer athrawon), cyllid i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol o ysbytai (£273k), cyllid ychwanegol ar gyfer Atgyweiriadau Cyfalaf ar gyfer Ysgolion (£361k) a chyllid refeniw sy'n gysylltiedig ag addysg drwy'r Grant Safonau Ysgolion (£407k) ac elfen Diwygio Addysgu Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£311k).

O ganlyniad i hyn, ac os na fydd unrhyw faterion sylweddol eraill yn codi a allai fod yn andwyol, mae disgwyl yn awr y bydd modd sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 24/25, er gwaetha'r heriau sy'n bodoli o fewn y gyllideb – yn benodol cost staff asiantaeth o fewn Gofal Cymdeithasol a nifer y Lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir a chost y lleoliadau hynny ar gyfartaledd.

#### **d) Y Dirwedd Reoleiddio**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae nifer o arolygiadau allanol wedi'u cynnal o waith y Cyngor gan naill ai rheoleiddwyr allanol neu gan gyrrff annibynnol eraill. Ar y cyfan, mae'r rhain wedi canmol perfformiad y Cyngor gan fod yn gadarnhaol iawn. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol
- Arolygiadau o Gartrefi Gofal Unigol a Gwasanaethau Unigol
- Arolygiad Estyn o'r Gwasanaeth Addysg
- Arolygiadau Estyn o Ysgolion Unigol
- Adolygiad gan Gymheiriaid – Asesiad o Berfformiad gan Banel
- Proses Genedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o Feincnodi Dangosyddion Allweddol
- Archwiliad Ariannol Archwilio Cymru o'r Cyfrifon

Er enghraifft, daeth yr Asesiad o Berfformiad gan Banel i'r casgliad canlynol:

*'Ceir tystiolaeth gref bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac o ystyried y galw mawr am wasanaethau ar hyn o bryd a'r pwysau ariannol hynod heriol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda'.*

Hefyd, daeth Estyn i'r casgliad canlynol:

*'Mae awdurdod Ceredigion wedi sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog o safon uchel i ddysgwyr, a hynny dros gyfnod estynedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd arweinyddiaeth gadarn; strategaethau ac uchelgeisiau clir a bwriadus; a chydweithio agos ymysg swyddogion yr awdurdod, aelodau etholedig, ysgolion a phartneriaid eraill.'*



### 3. Y Setliad Ariannol Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol

Ar 11/12/24, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Setliad Ariannol Dros Dro 25/26 ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae Atodiad 1 yn cynnwys llythyr eglurhaol y Gweinidog. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y Setliad drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

Ar 19/12/24 a 20/12/24, anfonodd Llywodraeth Cymru 2 e-bost a oedd yn cadarnhau bod mân anghysondeb yn y Setliad Dros Dro a oedd yn effeithio ar y data ar gyfer cymharu â 24/25 a'r symiau i'w trosglwyddo i'r Setliad o ran 3 grant sy'n gysylltiedig â digartrefedd.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif ganlyniadau i Geredigion:

#### a) Cyllid Refeniw

£143.9m yw'r Cyllid Allanol Cyfanredol (AEF) a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 25/26 o'i gymharu â £138.9m ar gyfer 24/25 (ar ôl addasu'r ffigurau). Mae hyn yn gynydd o £5m, gyda **Cheredigion yn wreiddiol yn yr 17eg safle o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru** (mae Ceredigion **bellach yn y 15<sup>fed</sup>** safle ar ôl y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar 19/12/24 a 20/12/24). **Mae'r cynnydd hwn o 3.6% ymhell islaw cyfartaledd Cymru.**

Mae Atodiad 2 yn dangos y cynnydd y mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi'i dderbyn ac mae hyn yn amrywio rhwng 5.6% (sef y cynnydd y mae Casnewydd yn ei dderbyn) a 2.6% (sef cynnydd Sir Fynwy). 4.3% yw'r cynnydd ar gyfartaledd ac mae cyfanswm y cyllid AEF ar draws Cymru ychydig yn fwy na £6.1bn.

Ar hyn o bryd, nid oes cyllid gwaelodol yn y Setliad Dros Dro, ond mae llythyr y Gweinidog yn nodi'r canlynol: *'O gofio'r ystod o godiadau, mae'r llywodraeth yn agored i ystyried darparu cyllido gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol.*

Mae nifer o grantiau / trosglwyddiadau ariannol yn rhan o Setliad Dros Dro 25/26 sy'n gyfanswm o £3.5m i Geredigion:

	£'000
Dyfarniadau Cyflog Athrawon (Medi 2024)	388
Pensiynau SCAPE (Athrawon)	1,296
Pensiynau SCAPE (Diffoddwyr Tân)	87
Dyfarniadau Cyflog y Gwasanaeth Tân	21
Grantiau Digartrefedd	478
Dyfarniadau Cyflog NJC (Ebrill 2024)	1,263
<b>Cyfanswm y Trosglwyddiadau I MEWN</b>	<b>3,533</b>

Mae'r trosglwyddiadau hyn wedi'u cynnwys gan Lywodraeth Cymru yn y ffigwr a addaswyd ar gyfer Cyllid Allanol Cyfanredol (AEF), sef £138.9m, fel bod modd cymharu tebyg wrth debyg. Ffigwr gwirioneddol yr AEF ar gyfer 24/25, heb ei addasu (h.y. yr un a ddefnyddiwyd ar gyfer proses Cyllideb 24/25) oedd £135.3m.

Mae setliad Ceredigion yn adlewyrchu amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- **Bod Ceredigion yn 22<sup>ain</sup> allan o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru mewn perthynas â'r cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru fesul pen o'r boblogaeth.** Mae Ceredigion wedi gweld cynnydd o 4.2% (£79) y pen, gan fynd o £1,891 i £1,970 y pen. Mae hyn yn sylweddol is na'r 3 chyngor sydd ar y brig yng Nghymru:

Safle	Cyngor	AEF y pen 25/26
1	Blaenau Gwent	£2,294
2	Merthyr Tudful	£2,272
3	Sir Ddinbych	£2,215

- Mae newidiadau o ran data **Niferoedd Disgyblion Ceredigion yn cyfrif am ostyngiad o £362k.** Mae'r niferoedd Meithrin a Chynradd wedi gostwng gan -2.2% i 4,823, tra bod y niferoedd uwchradd (BI 7-11) wedi cynyddu ychydig, gan +0.2% i 3,638. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd barhaus o nifer y disgyblion Uwchradd yn cynyddu a niferoedd y disgyblion Meithrin a Chynradd yn gostwng. Mae'r data yma yn adlewyrchu PLASC (Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2024, a disgwylir y bydd gostyngiad pellach i'w weld yn niferoedd y disgyblion Meithrin a Chynradd yn PLASC Ionawr 2025.
- Mae newidiadau ym mhoblogaeth Ceredigion yn cyfrif am gynnydd o £423k. Mae hyn am fod amcangyfrif canol-blwyddyn 2023 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi'i ddefnyddio, sef 73,050, yn lle amcangyfrif canol-blwyddyn 2022 yr ONS, sef 71,610. Mae'n ymddangos fod y setiau data yn casglu'r hyn y mae Cyngor Ceredigion wedi bod yn ei ddweud ers tro, sef bod ein poblogaeth wedi'i thangyfrif. Mae hyn wedi costio'r Cyngor oddeutu £400k y flwyddyn o ran cyllid nas cafwyd, tra bod Awdurdodau Lleol eraill wedi bod ar eu hennill, hyd at £3m y flwyddyn o bosib mewn rhai achosion.

Mae llythyr eglurhaol y Gweinidog yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Bod penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru yn parhau â'r **Cyflog Byw Gwirioneddol** (i weithwyr Gofal Cymdeithasol rheng flaen) a'r **camau tuag at ddileu elw o ofal plant.**
- Cynhaliwyd y **cap ar ofal dibreswyl** ar £100 yr wythnos (felly ni fu newid).
- Wrth gynllunio cyllidebau, rhaid i Awdurdodau ystyried **cytundeb cyflog Athrawon 2025-26** (ond nid yw Llywodraeth Cymru yn egluro pa ragdybiaeth gynllunio i'w defnyddio).
- Nid yw'r Setliad yn cynnwys cyllid o gwbl tuag at gostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Disgwylir i Drysorlys EF gadarnhau y bydd yn darparu cyllid ychwanegol 'yn hanner cyntaf 2025-2026' yn dilyn diffiniad yr ONS o gyflogai sector cyhoeddus.
- Mae cap o 1% ar y cynnydd i'r **Iluosydd Ardrethi Busnes (ardrethi annomestig)** (yn hytrach na defnyddio ffigwr y CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) ar gyfer mis Medi).

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl **setliadau amflwyddyn** yn Adolygiad Gwariant nesaf y Canghellor yn ystod hanner cyntaf 2025. Yn y gyllideb nesaf mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gallu darparu Setliad Dangosol Llywodraeth Leol o fwy na blwyddyn yn unig.

Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn cynnwys y canlynol:

*‘Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru bennu lefel fypwyl o gynydd yn nhreth y cyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i'ch Awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael, yn ogystal â'r pwysau yr ydych yn eu hwynebu. Rwy'n eich annog i barhau i bwysu a mesur yn ofalus effaith y cynnydd ar gyllid aelwydydd gyda cholli cefnogaeth a gwasanaethau.’*

## **b) Cyllid Cyfalaf**

Mae'r **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol** wedi cynyddu gan £20m ar draws Cymru, i £200m. Dyranriad Cyfalaf Cyffredinol 25/26 ar gyfer Ceredigion yw £6.466m, sy'n gynydd o **£612k** ar ddyranriad 24/25 o £5.854m. Rhennir y dyranriad yn Fenthyca â Chymorth o £2.871m a Grant Cyfalaf Cyffredinol o £3.595m.

Hyd yn oed gyda'r cynnydd o 10.5%, sydd i'w groesawu yn fawr, mae lefelau'r cyllid Cyfalaf yn parhau i fod ymhell o'r uchafsymiau o £7m a welwyd cyn y cyfnod cyni (2008/09), a hynny heb effaith waethybol chwyddiant sy'n lleihau pŵer prynu / gwario yn sylweddol. Pe bai'r £7m wedi parhau ac wedi cadw ar yr un raddfa â chwyddiant yn gyffredinol, byddai bellach yn werth dros £11m.

Yn ogystal, yn eu Cyllideb Ddrafft ar gyfer 25/26, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd £60m o gyllid cyfalaf ar gyfer Menter Fenthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd, i drwsio ffyrdd lleol. Tra bod y manylion heb eu cyhoeddi eto, amcangyfrifir bod cyfran Ceredigion yn £2.3m. Bydd Llywodraeth Cymru, i bob pwrpas, yn darparu cyllid refeniw hirdymor, i'r Cyngor wneud benthyciadau yn unol â'r gyfran a ddisgwylir, fel y gellir gwneud gwelliannau ychwanegol i'r priffyrdd yn 2025/26. Er bod croeso amlwg i'r chwistrelliad hwn o gyllid, mae angen buddsoddi'n barhaus hefyd dros yr hirdymor.

## **c) Grantiau Penodol**

Ar ben cyllid y Setliad Refeniw a Chyfalaf craidd heb ei neilltuo, cyhoeddir grantiau penodol (gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill) ar wahanol adegau a bydd pob un yn dod â'u cynigion grant unigol eu hunain gyda thelerau ac amodau penodol. Gyda'r cyfuniad o ddyfarniadau Cyflog a'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, yn arferol byddai angen cynnydd o 5% i 6% mewn cyllid grant dim ond i sefyll yn yr unfan. Fel arall, bydd angen i Wasanaethau dorri'r got yn ôl y brethyn ar sail y swm o gyllid sydd ar gael.

Cyhoeddiad allweddol yw'r estyniad i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n darparu ar gyfer pedwaredd flwyddyn o gyllid a ystyrir yn 'flwyddyn bontio'. Bydd

Ceredigion yn parhau yn awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru gyda'r cyllid hwn. Fodd bynnag, mae siom fawr gyda lefel y cyllid ar gyfer 25/26 (£5.0m ar gyfer Ceredigion) gan fod hyn £3.75m / 43% yn is nag yn 24/25. O fewn hwn mae'r dyraniad Refeniw (£3.6m) 51% yn is nag yn 24/25 ac mae'r dyraniad Cyfalaf (£1.4m) ond 1% yn is nag yn 24/25, felly mae hi'n amlwg mai'r ochr Refeniw sy'n cael ei tharo.

Yn ei grynswth, mae'r gostyngiad cyffredinol yn golygu bod y cyllid sydd ar gael ar gyfer 25/26 yn cyd-fynd yn fras â'r dyraniad blynyddol cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, ond roedd momentwm sylweddol wedi adeiladu dros y cyfnod hwnnw i fedru cyflawni a gweithredu'n llawn. Mae'r cyllid is a ddarperir ledled y DU (gostyngiad o 39%) wedi ei ddwysáu ymhellach yn sgil newid y fethodoleg dyrannu sydd bellach yn ffafrio Awdurdodau Lleol yr ystyrir eu bod yn fwy difreintiedig na Cheredigion. Mae 4 Awdurdod yng Nghymru (Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot) wedi elwa o gael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid ychwanegol oherwydd eu safleoedd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

Bydd rhaid aros i weld beth a ddigwyddith ar ôl y flwyddyn bontio hon yn achos y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Bellach mae gan Lywodraeth Cymru gyfnod ymgynghori o chwe wythnos, a fydd yn cau ar 24/01/25, yn dilyn cyhoeddi'r Setliad Dros Dro. Mae ymateb ffurfiol yn cael ei baratoi gan Gyngor Ceredigion a chaiff hwn ei rannu gydag Arweinyddion y Grwpiau.

#### **4. Ystyriaethau o ran y Gyllideb**

Mae model y Gyllideb yn cael ei seilio ar lefel y cyllid allanol sydd ar gael a'r pwysau costau y mae Gwasanaethau yn eu hwynebu. Mae angen diwallu'r diffyg a ddaw yn sgil hyn drwy gyfuniad o Gwtogiadau yn y Gyllideb a chodi Treth y Cyngor.

Y gofyniad o ran Cyllideb y Cyngor yn 24/25 oedd £193.6m ac mae hyn yn ariannu ymhell dros 100 o wahanol wasanaethau i drigolion Ceredigion. Treth gyffredinol yw Treth y Cyngor sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail talu wrth ddefnyddio gwasanaethau. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Bydd hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg ôl-16, boed hynny'n addysg chweched dosbarth neu'n hyfforddiant galwedigaethol. Darperir hefyd Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuentid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon a Llyfrgell, cerdded llwybr arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Cynllunio neu gais Rheoliadau Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio Safle Gwastraff Cartrefi, gyrru ar Briffyrdd a thros Bontydd (gan gynnwys ffyrdd a gaiff eu graeanu dros y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, cael goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- Yn ddiweddarach mewn bywyd, bydd preswilydd yn elwa ar docynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn y pen draw efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar i fedru byw'n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl, ac yn y pen draw gall hefyd gynnwys Gwasanaeth y Crwner a chofrestru marwolaeth.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn adlewyrchu'r ystyriaethau diweddaraf o ran y Gyllideb ddrafft.

##### **a) Y Cyllid sydd ar Gael**

Mae cynnydd ariannol o £8.6m yn Setliad Llywodraeth Cymru wrth gymharu ffigwr Setliad Terfynol 24/25 (£135.3m) â ffigwr Setliad Dros Dro 25/26 (£143.9m). Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys y Grantiau / Cyllid o £3.5m a drosglwyddir i mewn i'r Setliad.

##### **b) Pwysau o ran Costau**

Gwnaethpwyd gwaith iterus manwl i nodi ac asesu'r pwysau costau anochel a fydd yn wynebu'r holl Wasanaethau, yn ogystal â'r agweddau sy'n cael eu hystyried yn eitemau Corfforaethol.

Mae'r gwaith hwn wedi nodi gwerth £11.8m o bwysau costau, heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (sy'n amrywio yn ôl lefel Treth y Cyngor), sy'n cyfateb i 6.1% o Gyllideb 24/25. Mae'r swm yma yn is na'r hyn a welwyd yng Nghyllideb 24/25 ond mae'n dal i fod yn uwch na'r £11.6m a ragwelwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant o 2.6% ar hyn o bryd yn gyffredinol (ffigwr CPI mis Tachwedd 2024). Yn ystod y cyfnod 'arferol' cyn Covid, roedd pwysau costau oddeutu £8m fel rheol ac yn werth tua 6% o'r gyllideb net, felly rydym yn dechrau dychwelyd tuag at lefelau mwy arferol. Mae modd crynhoi pwysau costau fel a ganlyn, ar y cyd â rhagor o fanylion ategol yn Atodiad 3:

	<b><u>£'000</u></b>	
<b><u>Costau sy'n gysylltiedig â Chyflageion</u></b>		
Costau Dyfarniadau Cyflog tybiedig 25/26	2,935	
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	<u>584</u>	
	3,519	30%
<b><u>Gwasanaethau Gydol Oes y Pyrth</u></b>		
Darparu ar gyfer ymgodiad yn y Gwasanaethau a gomisiynir yn allanol (gan gynnwys Yswiriant Gwladol Cyflogwyr)	2,396	
Mwy o alwadau ar y Gwasanaethau	<u>1,418</u>	
	3,814	32%
<b><u>Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir</u></b>		
Model Gweithredu Cyfleusterau Plant yn y Sir	287	
Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir	<u>1,988</u>	
	2,275	19%
<b><u>Ailosod Cwtogiadau cyllidebol/ Defnyddio'r Cronfeydd wrth gefn</u></b>		
Cap ar yr hyn a godir am ofal dibreswyl yr wythnos	125	
Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir (£394k wedi'i gynnwys yn y £1.988m)	-	
Llyfrgell Llambed	35	
Cartref Hafan y Waun, Aberystwyth	<u>450</u>	
	610	5%
<b><u>Eitemau Eraill</u></b>		
Ardrethi Busnes	82	
Chwyddiant Contractau / Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	550	
Eitemau Corfforaethol	<u>954</u>	
	1,586	13%
<b>Pwysau Costau Net</b>	<b><u>11,804</u></b>	

Yn ogystal â hyn, mae buddsoddiad yn cael ei gynnig mewn dau faes gwasanaeth.

<b><u>Buddsoddiad mewn gwasanaethau</u></b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
	<b><u>OPSIWN A</u></b>	<b><u>OPSIWN B</u></b>
	<b><u>Aur</u></b>	<b><u>Platinwm</u></b>
Casglu Gwastraff	481	481
Gorfodaeth Cynllunio	230	346
	<b>711</b>	<b>827</b>

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r setiau data allweddol sy'n ymwneud â chyllid y Cyngor a'r pwysau sydd arno o ran costau:

<b>Set ddata</b>	<b>21/22</b>	<b>22/23</b>	<b>23/24</b>	<b>24/25</b>	<b>25/26</b>
Poblogaeth Ceredigion <sup>1</sup>	71,491	71,151	71,188	71,610	73,050
Niferoedd Disgyblion: Cynradd <sup>2</sup>	5,032	4,963	4,898	4,833	4,694
Niferoedd Disgyblion: Uwchradd <sup>2</sup>	3,484	3,574	3,607	3,607	3,582
Genedigaethau a gofrestrwyd <sup>3</sup>	487	411	432	418	<i>ddim yn berthnasol</i>
Plant sy'n Derbyn Gofal <sup>4</sup>	100	132	137	142	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Preswyl Pobl Hŷn (gan gynnwys EMI) (Cartrefi Preifat) <sup>5</sup>	169	176	160 <i>(ac eithrio HyW)</i>	151	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Nyrsio Pobl Hŷn (gan gynnwys EMI) (Cartrefi Preifat) <sup>5</sup>	80	86	72	67	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Preswyl Pobl Hŷn (gan gynnwys EMI) (Cartrefi'r Awdurdod Preifat) <sup>5</sup>	77	90	135 <i>(yn cynnwys HyW)</i>	122	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Preswyl Anableddau Dysgu <sup>5</sup>	55	61	60	60	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Preswyl Iechyd Meddwl <sup>5</sup>	37	44	39	40	<i>ddim yn berthnasol</i>
Lleoliadau Preswyl Byw â Chymorth <sup>5</sup>	65	55	56	56	<i>ddim yn berthnasol</i>
Pecynnau Gofal Cartref <sup>5</sup>	278	275	302	292	<i>ddim yn berthnasol</i>
Dyfarniadau Taliadau Uniongyrchol <sup>5</sup>	499	557	600	655	<i>ddim yn berthnasol</i>

#### Nodiadau

- Ffynhonnell: Data a ddefnyddiwyd yn Setliadau Llyw.Cym ar gyfer Grant Cynnal Refeniw (RSG) Llywodraeth Leol*
- Ffynhonnell: PLASC (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) blynyddol (e.e. 21/22 = PLASC Ionawr 2021).  
Mae 25/26 yn cyfleu'r amcangyfrif diweddaraf ar gyfer PLASC Ionawr 2025*
- Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Cofrestru. Mae'n cyfleu genedigaethau a gofrestrwyd yng Ngheredigion, felly nid yw'n cyfrif am fewnfudo / allfudo neu gofrestriadau y tu allan i'r sir.  
Mae ffigwr 24/25 yn cyfleu'r 12 mis calendr diweddaraf.*

- 4 *Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol i'r Cabinet gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol.  
Data ar yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth bob blwyddyn ariannol, ar wahân i 24/25. Dyma'r ffigwr diweddaraf sydd ar gael a adroddwyd i'r Cabinet ar 03/12/24.*
- 5 *Ffynhonnell: Data Gofal Cymdeithasol ar yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth bob blwyddyn ariannol, ar wahân i 24/25. Dyma ddata diweddaraf mis Rhagfyr.*

Pwyntiau pwysig i'w nodi o ran pwysau o ran costau:

**i) Mae costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn elfen sylweddol iawn sef tua 30% o gyfanswm y pwysau o ran costau.**

Ar gyfer y dyfarniad Cyflog i Athrawon o 5.5% ym Medi 2024, mae cyllid o £388k wedi'i drosglwyddo i'r Setliad Dros Dro. Ar gyfer dyfarniad Cyflog staff cyffredinol y Cyngor (swm penodedig o £1,290 hyd at bwynt cyflog 43 a 2.5% uwchben hynny), mae cyllid o £1.263m wedi'i drosglwyddo i'r Setliad Dros Dro. Defnyddiwyd y trosglwyddiad hwnnw i sicrhau nad oes anghydbwysedd yn sgil dyfarniad cyflog 24/25 yn ogystal â chyfrannu tuag at ddyfarniad Cyflog tybiedig 25/26.

Nid yw prosesau dyfarnu cyflog cenedlaethol 25/26 wedi dechrau eto felly darparwyd ar ei gyfer ar sail amcangyfrif. Ar 10/12/24 cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei argymhelliad y dylid codi cyflogau gweithwyr y sector cyhoeddus gan 2.8%. Felly disgwylir i'r dyfarniadau cyflog gilio o'r lefelau uchel a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf a chyd-fynd yn fwy â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Nid yw'r Cyngor yn pennu Dyfarniadau Cyflog cyflogeion, ac nid yw'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch dyfarniadau cyflog ychwaith. Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn mewn perthynas â Chyflogau Athrawon a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU sy'n gwneud hyn mewn perthynas â staff cyffredinol y Cyngor.

**ii) Mae'r pwysau costau ym maes Gofal Cymdeithasol wedi disgyn o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf a bellach maent tua 32% o gyfanswm y pwysau o ran costau.**

Mae £2.4m o hwn yn gysylltiedig â chyllid ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, gydag elfen fawr yn ymwneud ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru y dylai gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig dderbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, sydd wedi codi o £12.00 i £12.60 yr awr (cynnydd o 5%). Ar y cyd â hyn y mae effaith ariannol sylweddol y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yr amcangyfrifir y bydd yn costio £937k o fewn y swm uchod.

Mae angen trosglwyddo arian i ddarparu'r sector preifat ac mae hyn yn arwain at godiadau chwyddiant dros dro o 7.79% ar gyfer lleoliadau Gofal Cartref a Byw â Chymorth, 6.81% ar gyfer Gofal Preswyl a 5.56% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol. Y codiadau hyn yw terfyn gallu'r Cyngor i fforddio, ac nid oes cyllid yn cael ei ddarparu i'r Cyngor tuag at effaith anuniongyrchol y newidiadau yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol



Cyflogwyr. Dim ond codiad cyllido cyffredinol o +3.6% a ddaw i'r Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ymddengys fod Darparwyr Gofal Cymdeithasol yn sector anghofiedig pan ddaw hi i bwyso a mesur effaith penderfyniad y Canghellor ynghylch cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr.

Gwelir cynnydd o hyd yn y galwadau ar wasanaeth a chostau'r Asiantaeth Maethu Annibynnol, y costau o ran Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches a chostau lleoliadau ym meysydd Anableddau Dysgu a Chorfforol, ac Iechyd Meddwl. Hefyd mae costau uwch o ran darparu gwasanaeth Gofal Ychwanegol ym Maes y Môr, Aberystwyth.

### **iii) Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir**

Mae nifer a gwerth cyfartalog lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir wedi parhau i godi yn ystod rhan gyntaf 24/25, ers gosod Cyllideb 24/25. Adroddwyd ar hyn yn rheolaidd drwy'r adroddiadau chwarterol ar fonitro ariannol.

O ganlyniad, mae angen ailosod y cwtogiad o £394k o Gyllideb 24/25 ac mae angen cydnabod pwysau costau sy'n dod i gyfanswm o £1.988m. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y cyfleoedd ar y gweill gyda'r cyfleusterau newydd o fewn y sir. Hefyd mae'n defnyddio cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ond nid yw'n cynnwys £287k arall sydd ei angen i sicrhau bod y gyllideb refeniw ar gyfer y cyfleusterau newydd (o dan Borth Gofal) yn cydweddu gyda'r model gweithredu diweddaraf sydd wedi'i gynllunio.

### **iv) Buddsoddi mewn Gwasanaethau**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r heriau gweithredol y mae'r gwasanaeth Casglu Gwastraff eu hwynebu, yn enwedig yn ne'r sir yn ystod 2024. O ganlyniad, mae nifer o gamau eisoes wedi'u cymryd fel buddsoddiad yn ystod y flwyddyn i sefydlogi'r gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod y sefydlogrwydd hwn yn parhau, mae angen cynnydd parhaol yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer effaith y flwyddyn lawn, sy'n cynnwys 7 FTE ychwanegol. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost am y flwyddyn lawn (gan gynnwys y cynnig i allanoli 3 llwybr) ychydig o dan £0.5m.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar y Gwasanaeth Cynllunio yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae swyddogion wedi drafftio nifer o opsiynau pe bai Aelodau o blaid cefnogi buddsoddiad yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio. Cyflwynwyd y rhain i'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ac mae'r opsiynau wedi'u categorio fel Platinwm, Aur, Arian ac Efydd. Mae'r Cabinet o blaid buddsoddi yn y Gwasanaeth hwn, oherwydd bod dull cryf, gweladwy a rhagweithiol o orfodi, yn hanfodol i sicrhau na chaniateir i ddatblygiadau, sy'n groes i Bolisi Cynllunio, fynd heb eu gwirio. Mae

dull cryf o weithredu tîm Diogelu'r Cyhoedd o ran Hylendid Bwyd yn enghraifft o weithgarwch gorfodi sydd â phroffil uchel. Mae dau opsiwn yn cael eu cynnig ar hyn o bryd:

**Opsiwn A (Aur)** – Creu Tîm Gorfodaeth Cynllunio gyda 7 FTE – cynnydd o 4.4 FTE yn cynnwys adnodd Cyfreithiol penodedig ar gost o £230k.

**Opsiwn B (Platinwm)** – Creu Tîm Gorfodaeth Cynllunio gyda 9 FTE – cynnydd o 6.4 FTE yn cynnwys adnodd Cyfreithiol penodedig a hefyd dwy swydd Gorfodaeth arbenigol ar gost o £346k.

**v) Adfer y Gostyngiadau i'r Gyllideb / Defnyddio cronfeydd wrth gefn**

Nid oes dewis ond gwrthdroi'r Gostyngiad o £125k i Gyllideb 24/25 yn ymwneud â'r dybiaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cap codi tâl wythnosol ar gyfer Codi Ffioedd Dibreswyl mewn Gofal Cymdeithasol o'r £100 presennol yr wythnos. Cyflwynodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ystod o godiadau posibl, ond yn y pen draw mae Gweinidogion wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag unrhyw godiad.

O ran Llyfrgell Llanbedr Pont Steffan, mae'r Cabinet yn ymwybodol iawn o'r datblygiad diweddar sy'n effeithio ar y dref, yn dilyn cyhoeddiad Prifysgol Llanbedr Pont Steffan ynghylch cyfeiriad y campws yn y dyfodol, o fis Medi 2025. Er bod yr opsiwn o hyd i symud y llyfrgell i'r Ganolfan Lles rywbryd yn y dyfodol, ar hyn o bryd byddai'r Cabinet yn cynnig bod y llyfrgell yn awr yn aros yn ei lleoliad presennol. Felly, cynigir y dylid gwrthdroi yr elfen o'r angen am y Gostyngiad cysylltiedig yng Nghyllideb 24/25.

Cydnabuwyd o'r cychwyn y byddai mewnoli Cartref Gofal Hafan y Waun, Aberystwyth yn arwain at gost ariannol uwch. Ar y pryd neilltuwyd swm o £1m yn y cronfeydd wrth gefn i gyflwyno effaith hyn, fesul cam, ar draws blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25. Mae rhan olaf y swm hwn (£450k) yn disgyn i ffwrdd yn 25/26 ac felly mae angen ei ddisodli gyda chyllid craidd y gyllideb sylfaenol. Mae nifer o gamau arloesol eisoes wedi'u cymryd i leihau'r gost gyffredinol ac mae'r rhain yn cyfrannu at gwrdd â'r Gostyngiad o £350k i'r Gyllideb sydd wedi'i gynnwys yng Nghyllideb 24/25 – mae hyn yn cynnwys cau Cartref Preswyl Tregerddan a throsglwyddiad llwyddiannus cysylltiedig y preswylwyr draw i Hafan y Waun ym mis Rhagfyr 2024, yn ogystal â chynhyrchu incwm gan y Bwrdd Iechyd (gyda thenantiaeth fasnachol ar gyfer eu ward Y Bwa sydd bellach yn meddiannu adain o adeilad Hafan y Waun).

**vi) Cyfanswm y pwysau o ran costau sy'n gysylltiedig â Chyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion** yw £3.0m (sy'n cyfateb i tua 6.2% o gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion sy'n £49m). Mae 95% o'r pwysau o ran costau'n ymwneud â'r cyfuniad o ddyfarniadau cyflog tybiedig ac effaith Yswiriant Gwladol Cyflogwyr. Cyfanswm y Balansau Ysgolion oedd

£3.8m ar 31/03/24 a disgwylir i'r rhain ostwng i £2.8m erbyn 31/03/25. Roedd balansau'r ysgolion cyn COVID fel arfer oddeutu £1.8m i gyd.

Mae'r Cabinet yn cynnig sicrhau bod gan Gyllideb Ddirprwyedig gyffredinol yr Ysgolion ddigon o arian i dalu am effaith hysbys dyfarniadau cyflog 24/25, effaith amcangyfrifedig Dyfarniadau Cyflog 25/26, effaith y newidiadau i Yswiriant Gwladol Cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ac ariannu'n llawn y cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn SCAPE Cyflogwyr Ebrill 2024. Mae rhai arbedion tybiedig oherwydd gostyngiad ym mhrisiau contractau Ynni.

Yr effaith, o ganlyniad i hyn, fyddai **cynnydd o 5.1% yng nghyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion** (ac eithrio cyllid a drosglwyddwyd i'r Setliad Dros Dro) sy'n **codi i 8.3%** unwaith y bydd cyllid, sydd wedi'i drosglwyddo i'r Setliad Dros Dro, wedi'i gynnwys (ar gyfer Pensiynau SCAPE + Thâl Medi 2024). Fel bob amser, ar lefel Ysgol unigol, bydd niferoedd y disgyblion yn effeithio ar y sefyllfa.

Mae'r gostyngiad parhaus yn niferoedd disgyblion yn y sector Meithrin a Chynradd yn parhau i fod yn bryder sylweddol, gyda disgwyl i CYBLD ym mis Ionawr 2025 ddangos dirywiad pellach o tua 138 o ddisgyblion. Mae tueddiadau cyfraddau geni yn dangos bod y sefyllfa hon yn debygol o waethygu hyd yn oed ymhellach dros y blynyddoedd i ddod. Yn anffodus, mae hyn yn parhau i dynnu sylw at y ffaith nad yw seilwaith presennol yr Ysgolion Cynradd, yn ei gyfanrwydd, yn hyfyw yn ei ffurf bresennol, dros y tymor canolog.

## vii) Eitemau Corfforaethol

Y prif elfennau yw:

- Costau ariannu sy'n gysylltiedig ag elfen Benthycia â Chymorth Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Gyfalaf - £200k.
- Ardoll tân - Cynnydd arfaethedig o 7.3% oherwydd cyfran Ceredigion o Gyllideb Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan ddefnyddio set ddata poblogaeth ddiweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Byddai hyn yn arwain at gyllideb ardoll tân o £5.740m ar ôl ystyried effaith cyllid tybiedig Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, a fyddai'n dod yn uniongyrchol i'r Cyngor ac nid i'r Awdurdod Tân. Byddai'r cynnydd net o tua £301k yn cyfateb i tua 0.6% ar Dreth y Cyngor. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod yr Awdurdod Tân yn gorff codi ardoll ac nid yn gorff praeseptio, yn wahanol i Awdurdod yr Heddlu, a dyna pam mae hyn yn ymddangos o dan Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion.
- Cronfa ganolog wrth gefn o £300k ar gyfer Tâl ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, o ystyried yr ansicrwydd sy'n bodoli ar gyfer yr amcangyfrifon hyn i'r Gyllideb.
- Nid oes ffigwr wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ar gyfer costau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae'r swm yn amrywio yn dibynnu ar benderfyniadau terfynol Treth y Cyngor ac mae pob

cynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor yn ychwanegu cost o tua £60k i Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Mae'r Pwysau o ran Costau hefyd wedi'u crynhoi yn ôl math a fesul Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn Atodiad 4.

**c) Diffyg yn y Gyllideb**

O ganlyniad, felly, mae'r diffyg rhwng y cyllid sydd ar gael a phwysau'r costau cyllidebol rhwng £7.4m a £7.5m:

	<b><u>Opsiwn A</u></b> <b><u>£'000</u></b>	<b><u>Opsiwn B</u></b> <b><u>£'000</u></b>
<b><u>Pwysau'r Gyllideb o ran Costau</u></b>		
Pwysau o ran Costau Gwasanaethau	10,240	10,240
Adfer y Gostyngiadau i'r Gyllideb / Defnyddio cronfeydd wrth gefn	610	610
Pwysau o ran Costau Corfforaethol	954	954
	<b>11,804</b>	<b>11,804</b>
Buddsoddi mewn Gwasanaethau	711	827
	<b>12,515</b>	<b>12,631</b>
<b><u>Wedi tynnu'r cyllid sydd ar gael</u></b>		
Cynnydd yn y Cyllid o ran Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru	-8,652	-8,652
Addaswyd ar gyfer Trosglwyddiadau i'r Setliad	3,533	3,533
	<b>-5,119</b>	<b>-5,119</b>
<b>Diffyg Cychwynnol yn y Gyllideb</b>	<b>7,396</b>	<b>7,512</b>

**d) Premiymau Treth y Cyngor**

Ar 14/12/23, ystyriodd yr Aelodau Iefel Premiymau Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi (eiddo wedi'i ddodrefnu nad oes neb yn byw ynddo fel eu prif breswylfa). Dyma oedd y penderfyniadau:

- bydd Premiwm Treth y Cyngor presennol o 25% sy'n berthnasol i **Eiddo Gwag Hirdymor** yn cynyddu o 01/04/24, i:
  - a) 100% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor am hyd at ac yn cynnwys 5 mlynedd.
  - b) 150% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor ers dros 5 mlynedd a hyd at a chan gynnwys 10 mlynedd.
  - c) 200% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor ers dros 10 mlynedd.
 gyda'r holl gyfnodau amser gan gynnwys y cyfnod di-dor cychwynnol o 12 mis i annedd gael ei diffinio fel 'Eiddo Gwag Hirdymor' oherwydd ei bod yn wag ac yn sylweddol heb ddodrefn.
- bydd Premiwm Treth y Cyngor presennol o 25% sy'n berthnasol i **Ail Gartrefi** yn cynyddu i 100% ac i ddod i rym o 01/04/24.
- bydd Premiwm Treth y Cyngor presennol o 25% sy'n berthnasol i **Ail Gartrefi** yn cynyddu **i 150% ac i ddod i rym o 01/04/25.**

O ganlyniad i'r penderfyniad graddol ar Ail Gartrefi, mae sylfaen drethu'r Cyngor ar gyfer 25/26 wedi cynyddu. Cadarnhaodd yr adroddiad i'r Cabinet ar 03/12/24 fod yr amcangyfrif canlyniadol o ran Sylfaen Drethu 25/26 yn gynydd o 1.93% (cynydd cyfatebol Band D o 653.3). **Yn seiliedig ar elfen Band D y Cyngor o lefel bresennol Treth y Cyngor 2024/25, mae hyn yn cyfateb i tua £1.128m cyn unrhyw ystyriaethau cynnydd yn Nhreth y Cyngor.**

Ar 31/03/24 roedd gan gronfa wrth gefn y Cynllun Tai Cymunedol falans o £2.557m. Mae penderfyniadau'r Cyngor Llawn ar 29/02/24 hefyd yn parhau i fod ar waith:

- O 01/04/24 ymlaen, dylid neilltuo 25% o'r holl arian a godir o Breimiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) a'i ddefnyddio i gefnogi'r [Cynllun Tai Cymunedol](#), yn amodol, bob amser, na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y [Cynllun Tai Cymunedol](#) yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon, mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa gyffredinol y gyllideb.
- O 01/04/24, bydd 75% o'r holl arian a godir o Breimiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa gyffredinol y gyllideb, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.

Darperir diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau drwy adroddiadau monitro ariannol chwarterol ac i grynhoi:

- Mae 7 chais gwerth cyfanswm o £341k wedi cael eu cymeradwyo o dan y Cynllun Tai Cymunedol, ac mae 6 chais gwerth cyfanswm o £295k wedi'u talu.

	<i>Canran y Premiwm</i>	<b>Nifer yr Eiddo ar 31/10/23</b>	<b>Nifer yr Eiddo ar 31/10/24</b>	<b><i>Newid yn y canran</i></b>
<b><u>Eiddo Gwag Hirdymor</u></b>				
Hyd at ac yn cynnwys 5 mlynedd	100%	292	256	-12%
Dros 5 mlynedd a hyd at ac yn cynnwys 10 mlynedd	150%	171	104	-39%
Dros 10 mlynedd	200%	133	90	-32%
<b>Cyfanswm</b>		<b>596</b>	<b>450</b>	<b>-24%</b>
<b>Ail Gartrefi</b>	100%	<b>1,648</b>	<b>1,578</b>	<b>-4%</b>

#### e) **Gostyngiadau i'r Gyllideb**

Y prif opsiynau ar gyfer gwneud gostyngiadau i'r Gyllideb yw Cynyddu Incwm (e.e. trwy Ffioedd a Chostau) neu ostwng Gwariant (e.e. trwy leihau neu ddileu gweithgareddau gwasanaethau, torri gwariant, gwneud enillion effeithlonrwydd parhaus neu ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol neu mewn ffyrdd mwy arloesol).

Cydnabyddir ei bod yn ymddangos yn gyffredinol bod awydd isel ymhlith y cyhoedd am ostyngiadau pellach mewn lefelau Gwasanaethau a bu ymatebion anffafriol i nifer o'r Gostyngiadau i'r Gyllideb yn 24/25 yn ystod y cyfnodau manylach o ymgynghori a gweithredu.

Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mantoli'r Gyllideb trwy gael codiadau isel yn Nhreth y Cyngor ac ar yr un pryd gynnal a chadw'r holl Wasanaethau. Yn ddiodyn, bydd gwneud lefel is o Ostyngiadau i'r Gyllideb yn golygu bod mwy o faich ar Dreth y Cyngor.

Mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau bod ei Wasanaethau yn effeithlon ac yn effeithiol, felly ni fyddai osgoi newidiadau i Wasanaethau pan fo dulliau darparu mwy arloesol ac effeithlon ar gael yn dangos gwelliant parhaus a gwerth am arian i'r trethdalwr.

O gofio'r uchod, mae'r Gostyngiadau i'r Gyllideb y mae'r Cabinet yn eu cynnig wedi'u hamlinellu yn Atodiad 5.

	<b><u>£'000</u></b>
Gostyngiadau Arfaethedig yn y Gyllideb	1,080
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,080</b>

#### **f) Ffioedd a Chostau**

Mae'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd unigol a fydd yn dod i rym o 01/04/25, lle cânt eu pennu gan y Cyngor (gan nodi y bydd Ffioedd a bennir gan sefydliadau eraill yn cael eu diweddarau wrth i ni gael ein hysbysu am newidiadau) i'w gweld yn Atodiad 8. Ar ôl i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol graffu ar y cynigion hyn, bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar lefelau unigol Ffioedd a Chostau ar 18/02/25.

Disgwylir i'r gwasanaethau ddilyn yr egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau Gwasanaethau'r Cyngor, sy'n cynnwys anelu at adennill costau llawn lle bynnag y bo modd. Gellir dod o hyd i'r Ffioedd a'r Costau presennol ar wefan y Cyngor drwy fynd at:

[Fees and Charges 2024-2025 - Ceredigion County Council](#)

[Ffioedd a Chostau 2024-2025 - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Er bod chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gostwng (2.6% oedd y ffigwr ym mis Tachwedd), mae lefel y chwyddiant lleol y mae'r Cyngor yn ei brofi yn dal i fod yn sylweddol uwch na hyn e.e. o Ddyfarniadau Cyflog a nawr hefyd o newidiadau i Yswiriant Gwladol Cyflogwyr. Felly bydd hyd yn oed cynnydd sylfaenol o ran chwyddiant yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r lefelau CPI diweddaraf.

Y prif bwyntiau i'w nodi, ar wahân i'r rheiny sy'n gysylltiedig â chynnydd sy'n ymwneud â chwyddiant yw:

- Codi tâl am barcio – ymgwymerwyd â 2 gynnig ymgynghori ar wahân mewn perthynas â strwythur Ffioedd a Chostau newydd arfaethedig ar gyfer parcio cyffredinol oddi ar y Stryd ac ar gyfer cynnig i gyflwyno taliadau parcio ar Bromenâd Aberystwyth. Mae'r 2 agwedd yma yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Cabinet ar wahân i'r adroddiad hwn. Bydd canlyniad yr ystyriaethau hynny yn sail i ddiweddariad i restr y Ffioedd a'r Costau ar yr adeg briodol.
- Mae'r ffioedd a godir ar gyfer Cartrefi Gofal sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor a'r rheini a delir i Gartrefi Gofal y Sector Preifat wedi'u drafftio'n amodol a byddant yn destun adroddiad ar wahân, yn dilyn ymgynghoriad terfynol gyda'r sector.
- Rheolaeth Adeiladu – mae adolygiad manylach wedi'i gynnal i ail-sefydlu'r ffioedd hyn o fis Ebrill 2025 fel rhan o ddull graddol i fod yn adennill costau yn llawn.
- Set newydd o Ffioedd o dan yr Economi ac Adfywio mewn perthynas â Lesoedd a Gwerthu Eiddo neu Dir. Mae hyn i adlewyrchu'r mewnbnw o ran adnoddau gan dîm yr Asedau ar gyfer y mathau hyn o drafodiadau.
- Gwasanaeth Lles – rhai Ffioedd newydd (yn bennaf yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ar gyfer ystafelloedd / stiwdios ynghyd â 2 gategori ar gyfer Aelodaeth Iau Ceredigion Actif: 13 i 18 oed a hefyd 12 mlwydd oed ac iau).

**g) Ystyriaethau o ran Cynyddu Treth y Cyngor**

Gellir crynhoi'r sefyllfa sy'n deillio o baragraffau a) i f) uchod fel a ganlyn:

	<b>OPSIWN A</b>	<b>OPSIWN B</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Cyfanswm y Pwysau o ran Costau</b>	<b>11,804</b>	<b>11,804</b>
Ychwanegu Buddsoddi mewn Gwasanaethau	711	827
Wedi tynnu'r cynnydd yn y Cyllid o ran Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru	-8,652	-8,652
Addaswyd ar gyfer Trosglwyddiadau i'r Setliad	3,533	3,533
<b>Diffyg Cychwynnol yn y Gyllideb</b>	<b>7,396</b>	<b>7,512</b>
<b>Wedi tynnu</b>		
Gostyngiadau Arfaethedig yn y Gyllideb	-1,080	-1,080
Sylfaen drethu / Premiymau Treth y Cyngor	-1,128	-1,128
	<b>-2,208</b>	<b>-2,208</b>
<b>Diffyg cyn yr ystyriaethau am Dreth y Cyngor</b>	<b>5,188</b>	<b>5,304</b>
Budd ariannol o gynnydd o 5% wedi'i fodelu o ran Treth y Cyngor	-2,680	-2,680
<b>Diffyg yn y Gyllideb sy'n parhau'n weddill</b>	<b>2,508</b>	<b>2,624</b>

Mae diffyg o £2.5m i £2.6m felly yn dal i fodoli ar ôl darparu ar gyfer cynnydd o 5% wedi'i fodelu yn Nhreth y Cyngor.

Mae costau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a Phremiymau Treth y Cyngor yn ffactorau ansefydlog sy'n newid yn unol â gwahanol lefelau o ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Yn fras mae pob newid o 1% yn Nhreth y Cyngor bellach yn cyfateb i fudd net o tua £536k ac yn ychwanegu cost fisol o £1.44 i lefel Treth y Cyngor Band D.

Treth y Cyngor Band D a bennwyd ar gyfer elfen Ceredigion o dreth y Cyngor yn 24/25 (ychydig dros 80% o'r bil cyfan) oedd £1,726.05, gan godi i £2,103.89 ar ôl cynnwys elfennau praesept y Cyngorau Tref a Chymuned ar gyfartaledd a'r Heddlu. Y Bil o ran Treth y Cyngor Band D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 24/25 oedd £2,024.31 a lefel Treth y Cyngor Band D cyfartalog ar gyfer Awdurdod Unedol yn Lloegr oedd £2,248 ar gyfer 24/25.

Os yw'r diffyg presennol yn y Gyllideb yn cael ei ariannu drwy Dreth y Cyngor, byddai'n cyfateb i oddeutu 4.7% i 4.9% arall o ran Treth y Cyngor ac felly'n gyfanswm o gynnydd dangosol yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 25/26 o naill ai 9.7% neu 9.9%. Mae hyn yn cyfateb i ychydig dros £3 yr wythnos (neu £14 y mis) ar gyfer eiddo Band D ac ar gyfer eiddo ym Mand A i E (gan nodi bod tua 85% o eiddo Ceredigion yn dod o fewn y 5 band hyn) fel a ganlyn:

Band Treth y Cyngor	OPSIWN A		OPSIWN B	
	Cynnydd Posib yn Nhreth y Cyngor (Misol)	Cynnydd Posib yn Nhreth y Cyngor (Blwyddyn Lawn)	Cynnydd Posib yn Nhreth y Cyngor (Misol)	Cynnydd Posib yn Nhreth y Cyngor (Blwyddyn Lawn)
A	£ 9.29	£ 111.50	£ 9.50	£ 113.92
B	£ 10.84	£ 130.09	£ 11.08	£ 132.91
C	£ 12.39	£ 148.67	£ 12.65	£ 151.89
<b>D</b>	<b>£ 13.94</b>	<b>£ 167.25</b>	<b>£ 14.24</b>	<b>£ 170.88</b>
E	£ 17.04	£ 204.41	£ 17.41	£ 208.85

Byddai'r cydbwysedd rhwng y cyllid a rannwyd rhwng Llywodraeth Cymru a threthdalwyr Ceredigion wedyn yn 69%:31% ar gyfer 25/26, sy'n llawer yn is na'r rhaniad o 80%:20% a welwyd dros ddegawd yn ôl.

#### **h) Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Mae tua 5,100 o aelwydydd yng Ngheredigion yn defnyddio Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar hyn o bryd, sy'n diogelu pobl ar incwm isel iawn a / neu sy'n hawlio Budd-daliadau ac sy'n darparu i hawlwyd gael gostyngiad o hyd at 100% o'u hatebolrwydd ar gyfer Treth y Cyngor mewn rhai amgylchiadau.

Mae'n fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, felly bydd y swm y bydd person yn ei gael yn dibynnu ar ei incwm, ei gyfalaf a'i amgylchiadau. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw rhywun yn gweithio, efallai y byddant yn dal i fod yn gymwys i gael rhywfaint o help. Fodd bynnag, byddai meddu ar gyfalaf o £16,000 neu ragor (ac eithrio gwerth y prif gartref) yn golygu nad yw rhywun yn gymwys i gael cymorth.



Mae gan wefan y Cyngor Gyfrifiannell Hwl y gall unrhyw un ei defnyddio i weld a allent fod yn gymwys i gael cymorth:

<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/benefits/>

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau/>

## 5. Gofyniad o ran y Gyllideb

Yn sgil yr ystyriaethau diweddaraf o ran y gyllideb ddrafft, ar hyn o bryd y gofyniad posibl ar gyfer cyllideb 25/26 yw naill ai £209.109m neu £209.234, sy'n gynydd o oddeutu 8.0% ers 24/25. Mae cyfrifiad manwl o'r gofyniad o ran y gyllideb i'w weld yn Atodiad 6. Gan fod hyn yn seiliedig ar setliad dros dro 25/26, mae'n destun unrhyw addasiadau y mae'n bosibl y bydd angen eu gwneud ar ôl i setliad terfynol Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi ar 25/02/25, gan gynnwys os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno unrhyw argymhellion sy'n rhoi budd i Geredigion mewn perthynas â'r Cyllido Gwaelodol.

Felly, byddai angen gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â'r canlynol:

- bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei drosglwyddo i gyllideb y gwasanaeth perthnasol, lle ystyrir bod hynny'n briodol.
- bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y gwasanaeth / gwasanaethau a effeithir, lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- bydd unrhyw fudd o'r Cyllido Gwaelodol o fewn y Setliad Terfynol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r cynnydd dangosol yn Nhreth y Cyngor.
- ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.


Bydd ystyriaethau'r Gyllideb gyffredinol yn cael eu trosi'n ddyraniadau drafft i'r gwasanaethau, fel y nodir yn y crynodeb isod. Mae dadansoddiad pellach o'r newidiadau rhwng cyfansymiau Cyllideb Rheoladwy 24/25 a chyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 25/26 i'w gweld yn Atodiad 7.

	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddiweddaraf 24/25 £'000	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 25/26 £'000	Newid o'i gymharu â Chyllideb Ddiweddaraf 24/25 %
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	6,689	7,151	6.9%
Gwasanaethau Democraataidd	5,201	5,566	7.0%
Yr Economi ac Adfywio (OPSIWN A)	3,738	4,148	11.0%
Cyllid a Chaffael	21,431	22,299	4.1%
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,974	21,086	5.6%
Cyfreithiol a Llywodraethu	1,695	1,808	6.7%
Pobl a Threfniadaeth	2,419	2,548	5.3%
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,532	2,670	5.5%
Porth Cymorth Cynnar	4,039	4,673	15.7%
Porth Cynnal	37,891	41,463	9.4%
Porth Gofal	18,367	20,741	12.9%
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	57,976	62,721	8.2%
Grŵp Arweiniol *	5,541	5,747	3.7%
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	6,079	6,488	6.7%
<b>CYFANSWM</b>	<b>193,572</b>	<b>209,109</b>	<b>8.0%</b>

\* Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys lleoliadau plant y tu allan i'r sir.

Opsiwn Amgen	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddiweddaraf 24/25 £'000	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 25/26 £'000	Newid o'i gymharu â Chyllideb Ddiweddaraf 24/25 %
Yr Economi ac Adfywio (OPSIWN B)	3,738	4,264	14.1%
<b>CYFANSWM</b>	<b>193,572</b>	<b>209,234</b>	<b>8.1%</b>

Yn seiliedig ar y dyraniadau hyn o Gyllideb Ddrafft 25/26 – yn defnyddio OPSIWN A, gellir dangos y cost uniongyrchol y gellir ei rheoli gan Wasanaethau'r Cyngor (ac eithrio unrhyw aiddyrannu Gwasanaethau Cymorth neu daliadau cyfalaf fel Dibrisiant) fel hyn:



Mae'r sefyllfa ddrafft yn debyg iawn i Gyllideb 24/25 - yn yr ystyr y byddai 75% (£157.9m) o Gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes a Phrifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog eraill (yn bennaf) (h.y. Lwfansau Aelodau, Ardoll Awdurdodau Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), byddai hyn yn gadael 14% (£29.5m) ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

Gwnaed addasiadau ar gyfer:

- \* Yn cynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir (Llywodraeth Leol), Ffioedd cyfreithiol (Llywodraethu a Chyfreithiol) a Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (Pobl a Threfniadaeth)
- \*\* Yn cynnwys Menter Cyllid Preifat (PFI) Penweddig (Cyllid a Chaffael)
- \*\*\* Cyllideb Grŵp Arweinyddiaeth wedi'i addasu i ddsrannu cyllid tybiedig Yswiriant Gwladol Cyflogwyr i'r holl Wasanaethau

## **6. Risgiau i'r Gyllideb**

Gweler papur Risgiau i'r Gyllideb yn Atodiad 9, sydd wedi'i ddiweddarau i gynnwys y newidiadau perthnasol. Mae'n nodi'r prif risgiau i'r gyllideb ynghyd â sylwadau priodol a'r trefniadau rheoli sydd ar waith i leihau pob risg.

Dyma'r prif newidiadau ers y llynedd:

- Cydnabod bod y risg flaenorol ar Gyfraddau Cyflogwr Pensiwn SCAPE Athrawon wedi ei ddatrys trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, sydd bellach wedi'i gyflawni.
- Chwyddiant ar Gyflog – cydnabod bod hyn yn parhau i fod yn risg, sydd bellach yn cynnwys yr ychwanegiad bach o'r newid yn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr gan y Canghellor ac ansicrwydd ynghylch lefel ac amseru gwirioneddol cyllid ar gyfer Costau Uniongyrchol.
- Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau – cydnabod bod effaith cynnydd Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyflenwyr, yn creu risg i'r Gyllideb ochr yn ochr â chwyddiant, sydd dal ar gynnydd yng Ngheredigion.
- Defnydd o Staff Asiantaeth - Mae hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol o fewn y Gyllideb oherwydd bod lefel y defnydd parhaus yn dal i gael ei brofi, yn enwedig o fewn Gofal Cymdeithasol ar gyfer swyddi Gweithwyr Cymdeithasol statudol ac o fewn Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol.
- Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir – Mae hyn yn dal i gael ei gynnwys yn y risg o effaith ar ôl COVID ac mae'n parhau i fod yn risg sylweddol, er gwaethaf y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith gyda'r cyfleusterau newydd yn y sir yn dod i'r amlwg.
- Ychwanegwyd Risgiau Cyllideb Newydd ar gyfer Mesurau Diogelu Diogelwch Tân, Heriau Cyfreithiol allanol a Chyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer Pecynnu.

## **7. Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn**

Mae'r rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn arfaethedig sydd wedi'i diweddarau yn Atodiad 10 ynghyd â'r Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad 11. Mae'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig sydd wedi'i diweddarau ar gyfer 24/25 yn £62m, ac yn £31m ar gyfer 25/26. Mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn gyfanswm o £121m dros y cyfnod 24/25 i 27/28 ac fe'i hystyriwyd yng nghyfarfod Grŵp Datblygu'r Cyngor ar 13/01/25.

Yn ystod y cyfnod hwn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, mae llawer o grantiau cyfalaf penodol i'w cyhoeddi o hyd. Bydd y rhain felly yn cael eu hychwanegu at y rhaglen Gyfalaf pan fydd llythyrau cynnig grant yn cael eu derbyn. Mewn rhai achosion, efallai y bydd hyn hefyd yn gofyn am elfen o arian cyfatebol, y mae rhywfaint o ddarpariaeth eisoes wedi'i gwneud ar ei gyfer.

Mae'r gwaith o weithredu cynllunio cyfalaf gwell gan Wasanaethau unigol yn parhau ac mae hyn wedi cynorthwyo gyda rhai o'r trafodaethau anodd am flaenoriaethu wrth i adnoddau cyfalaf barhau i fod yn gyfyngedig. Mae buddsoddi i arbed cynlluniau i helpu i leihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw yn flaenoriaeth lle bynnag y bo modd. Wrth symud ymlaen dylai'r wybodaeth ynghylch cynllunio Cyfalaf yn well alluogi cynnal ffynhonnell hirdymor (e.e. ystod o 10 mlynedd) o ddyheadau o ran cynlluniau cyfalaf a phwysau gwasanaethau sydd heb eu hariannu, ochr yn ochr â'r Rhaglen Gyfalaf fyrrach a ariennir.

Gyda'r setliad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn arwain at gynnydd o 10.5% mewn cyllid cyfalaf craidd (£612k ychwanegol y flwyddyn) mae hyn yn gymorth ond yn parhau i olygu bod lefel y cyllid cyfalaf craidd (sydd bellach yn £6.5m ar gyfer 25/26) yn is o ran arian parod na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl (£7m yn 2008/09 a fyddai bellach yn werth dros £11m pe bai wedi cadw i fyny â chwyddiant cyffredinol).

Mae'r cynigion allweddol o fewn y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf yn cynnwys:

- £2.3m ar gyfer Menter Benthycy Priffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol yn ystod 25/26 i ariannu Gwelliannau Priffyrdd.
- Dyraniadau Cyfalaf UKSPF ar gyfer 25/26 - Cyfanswm o £3.9m ar gyfer Canolbarth Cymru gan mai Ceredigion yw'r awdurdod arweiniol (yn cael ei rannu i £2.5m i Bowys a £1.4m i Geredigion).
- O fewn y gyllideb i newid cerbydau Fflyd, mae £3m wedi'i glustnodi ar gyfer amnewid cerbydau sylfaenol casglu sbwriel sef (sef yn 26/27 a 27/28). Fodd bynnag, mae hyn yn destun ystyriaeth fanwl bellach wrth i wahanol agweddau ar fodel Casglu Gwastraff ddod yn gliriach dros amser, gan gynnwys effaith rheoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a fydd yn dod i rym yn ystod 2025.
- Pwyslais parhaus ar fesurau Effeithlonrwydd Ynni gyda chyllid o £2m wedi'i neilltuo dros oes y rhaglen.
- Canolfan Trochi Cyfrwng Cymraeg (Ysgol Gymraeg) – Mae'r Cynllun wedi'i gynnwys yn y Rhaglen, ond mae bwlch ariannu yn destun trafodaethau parhaus gyda LIC.
- £1.7m o gyllid ar gyfer adnewyddu elfennau allweddol (e.e. toeau a boeleri) sy'n dod i ddiwedd eu hoes.

- Buddsoddiad parhaus yng Nghartrefi Gofal Preswyl y Cyngor - £2m dros oes y rhaglen.

Mae bwlch sylweddol yn parhau o hyd rhwng dyheadau'r Cyngor a'i alluogi i gyllido. Er enghraifft - mae'r agweddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn llawn yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig yn cynnwys:

- Pwysau hirdymor o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- Amodau Adeiladau presennol a rhannau allweddol nad ydynt yn cael eu hystyried yn Goch ac y gellir eu hosgoi
- Gofynion o ran amnewid y Fflyd Cerbydau yn llawn
- Buddsoddi yn y Ffermydd Sirol
- Amnewid pecynnau TGCh yn y dyfodol mewn Ysgolion
- System wresogi ardal newydd – Penmorfa, Aberaeron
- Canolfan Lles newydd arfaethedig yn Aberteifi
- Mae'n debygol y bydd angen cyllid cyfatebol ar gyfer cynlluniau Gwarchod yr Arfordir yn y dyfodol, gan gynnwys yn Aberystwyth
- Effeithlonrwydd ynni sylweddol a dyheadau Carbon sero net.
- Cynlluniau Datblygu Asedau (i'w gynnwys wrth i lwybrau ariannu gael eu harchwilio ac ystyried defnyddio'r gronfa wrth gefn Hwb i'r Economi ar gyfer pob achos busnes)

**Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at gasgliad clir nad yw'n bosibl cynnal y lefel bresennol o asedau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt (boed hynny'n adeiladau, seilwaith neu gerbydau fflyd). O ganlyniad ac yn dilyn y cynnydd sylweddol a wnaed o dan y Ffyrdd Newydd o Weithio i Adeiladau Swyddfa'r Cyngor, mae rhaglen ehangach o Resymoli Adeiladau yn cael ei hystyried a fydd yn herio lefel y defnydd a'r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer cyfres llawer ehangach o Asedau'r Cyngor.**

**Bydd hefyd yn golygu bod angen pwyslais sylweddol ar ddod o hyd i gyllid allanol (gan fod modd ariannol y Cyngor ei hun yn gyfyngedig oni bai bod yr Aelodau'n barod i roi hyd yn oed mwy o faich ar y gyllideb Refeniw), ynghyd â thargedu gwaredu asedau presennol yn amserol, lle nad ydynt bellach yn gwasanaethu gwasanaeth tymor hir neu ddibenion strategol.**

## **8. Cydnerthedd Ariannol (gan gynnwys Cronfeydd wrth gefn a Balansau Cyffredinol)**

Mae cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor yn gadarn iawn hyd yn hyn, ac yn cael ei gynorthwyo gan fantolen gref. Mae dull gweithredu a hanes y Cyngor yn seiliedig ar ddull gweithredu sydd wedi bod yn gadarn yn gyson o ran rheolaeth ariannol, ac mae'n cael ei gynorthwyo gan dîm Cyllid proffesiynol, profiadol, a Grŵp Arweiniol - a arweinir gan Brif Weithredwr - sy'n gweithredu mewn dull strategol, corfforaethol.

Mae nifer o sylwadau cadarnhaol yn asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol diweddar Archwilio Cymru o'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr i'r tymor canolig.*
- *Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau yn y gorffennol sydd wedi gwella ei wytnwch.*
- *Mae gan y Cyngor hanes cryf o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio a mynd i'r afael â'i bwysau cyllidebol.*
- *Mae'r Cyngor yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn mewn ffordd gynlluniedig a strategol.*
- *Mae alldroadau blaenorol wedi cyflawni sefyllfa gyllidebol gytbwys, gan ddangos ymwybyddiaeth a rheolaeth o'r sefyllfa ariannol.*
- *Mae trefniadau ar waith i gefnogi goruchwyliaeth gyllidebol reolaidd drwy adrodd ar hyn o bryd.*

Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg bod her i'w hateb ynghylch hyfywedd ariannol tymor canolig a hirdymor Cyngor Sir Ceredigion a sut y bydd strategaeth ariannol tymor canolig i hirdymor yn mynd i'r afael â'r pwysau a'r diffygion ariannol tebygol dros y cyfnod hwnnw.

Mae gwytnwch ariannol y Cyngor hefyd yn parhau i gael ei brofi gan setliadau ariannol gwael gan Lywodraeth Cymru, o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. Mae'n ymddangos bod hon yn thema sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gyson ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau llai a/neu fwy gwledig yng Nghymru. Felly mae'r sgôr ar gyfer y sefyllfa ariannol Tymor Canolig ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i fod ar y sgôr risg uchaf posibl o 25.

Mae'r Gyllideb bob amser wedi'i gosod fel na fydd galw ar y gyllideb sylfaenol o'r Balansau Cyffredinol, ar wahân i ariannu eitemau un-tro eithriadol iawn, os bydd angen. Targed y Cyngor, a gymeradwywyd, yw cynnal y Balansau Cyffredinol ar rhwng 3% a 5% o'r gwariant net. Mae'r tabl canlynol yn dangos y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa a ragwelir:

	<b>31/03/23 Gwirioneddol</b>	<b>31/03/24 Arfaethedig</b>	<b>31/03/25 Arfaethedig</b>
Balansau Cyffredinol - Swm	£6.7m	£6.7m	£6.7m
Balansau Cyffredinol - Canran	3.7%	3.5%	3.2%

Gyda'r swm mewn Balansau Cyffredinol yn parhau i fod yn statig, effaith cyllideb referniw gynyddol yw bod y canran yn gostwng dros gyfnod o amser. Gyda rhagolygon y sefyllfa i fod i lawr ar 3.2% erbyn 31/03/26, mae'n debygol y bydd angen ystyried cynnydd mewn Balansau Cyffredinol erbyn 26/27.

O ran Cronfeydd wrth gefn penodol wedi'u clustnodi, cydnabuwyd bod eu lefelau wedi cyrraedd eu hanterth yn ystod COVID ac y byddent yn lleihau mewn dull a reolir yn ofalus, wrth i'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ddigwydd. Mae'r rhagamcanion cyfredol yn dal i ddangos bod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn uwch ar 31/03/26 na'r sefyllfa cyn COVID, pan oedd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn arfer bod tua £20m.

Mae Atodiad 12 yn dangos datganiad dros dro ar gyfer Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, y gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

	<b>31/03/2024</b>	<b>31/03/2025</b>	<b>31/03/2026</b>
	<b>Gwirioneddol</b>	<b>Amcangyfrif</b>	<b>Amcangyfrif</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Balansau Dirprwyedig Ysgolion	3.8	2.8	2.8 tbc
Cronfa gyfalaf wrth gefn Gorfforaethol	5.7	5.7	2.9
PFI Penweddig	1.3	1.0	0.7
Rheolaeth Gyllidebol a Digwyddiadol	2.8	1.5	1.5
Pwysau Costau a Chwyddiant	0.8	0.8	0.8
Cronfeydd Yswiriant / Dileu Swyddi wrth gefn	1.3	1.4	1.4
Cynllun Tai Cymunedol	2.6	2.2	2.0
Buddsoddiad TGCh a Digidol	1.0	0.8	0.5
4 Cronfa Blaenoriaeth Gorfforaethol wrth gefn	16.8	9.3	6.8
Cronfeydd Wrth Gefn Eraill	7.9	5.8	4.9
<b>CYFANSWM</b>	<b>44.0</b>	<b>31.3</b>	<b>24.3</b>

Mewn theori, gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel strategaeth i helpu i gydbwysu'r gyllideb. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gynaliadwy nac yn ddoeth a byddai'n mynd yn groes i safbwyntiau blaenorol Archwilio Cymru. Mae ymrwymadau hefyd i ddod allan o gronfeydd wrth gefn sy'n ymwneud â rheoli sefyllfa 24/25 o fewn y flwyddyn, er mwyn cyfrannu at brosiectau cyfalaf mawr (Amddiffyn Arfordir Aberaeron, Ysgol Dyffryn Aeron), Ysgolion yn defnyddio'u balansau dirprwyedig ac ymrwymadau amrywiol sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol.

Hefyd, byddai'n groes i gyngor y swyddog Adran 151 i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i gydbwysu'r gyllideb gyffredinol, oni bai bod achos busnes / strategaeth glir i adfer y cronfeydd wrth gefn hyn cyn dechrau'r broses o osod y gyllideb nesaf.



## 9. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Fel y nodwyd ynghynt, cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei diweddarau yn ystod Haf 2024 a aeth drwy'r broses ddemocrataidd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024.

Roedd cyhoeddiad y Canghellor ym mis Hydref ynglŷn â newidiadau i Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr, wedyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr ynglŷn â chyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, ac yna Setliad Dros Dro 25/26 a oedd yn dra gwahanol i'r hyn a oedd yn cael ei fodelu, i gyd yn dangos pa mor anodd yw cynllunio ariannol o'r tymor canolig i'r tymor hir.

Mae cyhoeddi'r Setliad Grant Cynnal Refeniw (RSG) blynyddol gan Lywodraeth Cymru ychydig cyn y Nadolig ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ond yn dwysáu'r sefyllfa o ran cynllunio tymor byr. Nid wnaeth y Setliad dros dro ar gyfer Cyllid Llywodraeth Leol 25/26 gynnwys unrhyw arwyddion am y lefelau ariannu yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Gyda'r Canghellor yn cyhoeddi datganiad cyllidol pellach yn y Gwanwyn (disgwylir hyn bellach ar 26/03/25), mae arwyddion y gallai hyn ymestyn dros fwy nag un flwyddyn ariannol, a allai arwain at setliadau Llywodraeth Leol aml-flwyddyn ar ryw ffurf.

Yn absenoldeb unrhyw arwyddion ynghylch Setliad y dyfodol, mae cyflwr cyffredinol yr economi yn awgrymu bod gan Lywodraeth y DU her ariannol sylweddol o'i flaen gyda diffyg llewyrch o ran twf economaidd neu dwf economaidd o lefel isel iawn a chan fod cyfraddau llog yn parhau'n uchel am gyfnodau hirach. Felly, nid yw'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn edrych ddim gwell na'r hyn a ragdybiwyd yn wreiddiol ar gyfer 24/25, cyn cyhoeddi cyllideb gyntaf y llywodraeth Lafur newydd.

At ddibenion cynllunio, mae'n ymddangos taw 1% o gynnydd blynyddol mewn cyllid craidd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yw'r sefyllfa ganolrifol sy'n cael ei hystyried ledled Cymru ar hyn o bryd, gan nad oes unrhyw sail fanwl ar gyfer hyn. Os tybir bod pwysau o ran costau yn parhau i ostwng, wrth i chwyddiant leihau, i oddeutu £10m y flwyddyn, yna mae'r canlynol yn senario dangosol lefel uchel iawn gan ddilyn modelu Treth y Cyngor ar 7.5%:

	26/27	27/28	28/29
	Dangosol	Dangosol	Dangosol
	£m	£m	£m
Pwysau Dangosol ar y Gyllideb	10.0	10.5	11.0
Treth y Cyngor wedi'i fodelu'n 7.5%	-4.9	-5.3	-5.7
Ariannu GCR (RSG) LIC wedi'i fodelu'n 1.0%	-1.4	-1.5	-1.5
<b>Bwlch Cyllidebu Dangosol</b>	<b>3.7</b>	<b>3.7</b>	<b>3.8</b>

Mae'r senario hwn yn awgrymu bwlch cyllidebu o tua £11.2m dros y 3 blynedd nesaf.

**Y bwriad felly yw diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar ôl Datganiad y Canghellor yn y Gwanwyn. Bydd hyn yn sicrhau bod cynnwys y Strategaeth yn fwy manwl, ystyriol a phenodol.**

Datblygiad pellach, y bydd angen i Aelodau roi ystyriaeth ffurfiol iddo maes o law, yw Bil drafft LIC ar Ardoll Ymwelwyr Ddisgresiynol. Mae'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) (Cymru) yn parhau i fod yn destun craffu gan y Senedd a chydsynio brenhinol, ond yn ei ffurf ddrafft gyfredol byddai'n darparu ar gyfer y canlynol:

- Lle bo ardoll ymwelwyr yn cael ei chyflwyno, byddai'r tâl fesul noson yn cael ei gosod ar:
  - £0.75 fesul person, fesul noson i'r rhai sy'n aros ar safleoedd gwerysyla (lleiniau) ac mewn hostelau.
  - £1.25 fesul person, fesul noson i'r rhai sy'n aros ym mhob math arall o lety ymwelwyr
- Y darparwyr llety fydd yn gyfrifol am dalu'r ardoll fyddai'n cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.
- Byddai cofrestr genedlaethol o lety ar gyfer ymwelwyr.
- Awdurdodau lleol fyddai'n penderfynu ar yr hyn sydd orau i'w cymunedau, gyda gofyniad i ymgynghori â thrigolion a busnesau cyn cyflwyno ardoll yn eu hardal.

Disgwylir penderfyniad terfynol ynghylch a fydd yn dod yn gyfraith yn ystod 2025. Yna byddai'r broses gofrestru ar gyfer pob darparwr llety yn dechrau yn ystod 2026. Y cynharaf y gellid cyflwyno ardoll ymwelwyr gan unrhyw awdurdod lleol fyddai 2027 (gan gynnwys cyfnod rhybudd posib o 12 mis os bydd Awdurdod Lleol yn penderfynu cyflwyno ardoll).

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol a dilyn unrhyw ddatblygiadau ynghylch y Bil yma:

[Ardoll ymwelwyr i Gymru | LLYW. CYMRU](#)

## **10. Casgliadau a Barn y Swyddog Adran 151**

Disgwylir i Setliad Terfynol LIC gael ei gyhoeddi ar 25/02/25, a gaiff ei ddilyn gan gyfarfod y Cyngor Llawn ar 03/03/25, lle bydd yr holl Aelodau yn ystyried eu penderfyniadau terfynol ar y Gyllideb Net a lefel Treth y Cyngor. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Aelodau i osod Cyllideb y Cyngor a Threth y Cyngor erbyn 11 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r goblygiadau cyfreithiol a gweithredol o beidio â chymeradwyo Cyllideb yn sylweddol. Bydd gofyniad terfynol arfaethedig y Gyllideb ac argymhelliad ynghylch Treth y Cyngor yn cael eu gwneud i'r Cyngor Llawn ar 18/02/25, yn dilyn proses o Graffu ar y Gyllideb.

Ar ôl ystyried pob agwedd, gellir cyflawni cyllideb gytbwys - gan ystyried cyfanswm y cyllid sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, y cwtogi cyllidebol a gynigir, a'r buddiant pellach a ragwelir o Bremiymau Treth y Cyngor. Mae hyn yn tybio y bydd y diffyg sy'n weddill yn cael ei ariannu gan gynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Mae cyllidebau a'u hystyriaethau a'u trafodaethau cysylltiedig yn parhau i fod yn anodd ac ar adegau'n emosiynol. Derbynnir yn llwyr na ddewisodd Aelodau wleidyddiaeth gan wybod y byddai angen gwneud penderfyniadau cyllidebol anodd a diddiwedd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mai brawd mogi yw tagu yn aml wrth wneud dewisiadau o dan yr amgylchiadau hyn. Mae sicrhau cydbwysedd cywir rhwng penderfyniadau anodd ynghylch y Gyllideb a chyflwyno lefel dderbyniol o gynnydd i Dreth y Cyngor yn benderfyniad sy'n annymunol i'r Aelodau, ond nid yw'n bosibl osgoi'r ddeuliaeth hon. Bu cryn ymgysylltu â'r holl Aelodau trwy gyfres o Weithdai Cyllidebol a chroesawir eu mewnbwn a'u sialens barhaus.

Gan ystyried yr holl faterion yn yr adroddiad hwn, fel swyddog Adran 151, gallaf gadarnhau felly fod argymhellion presennol y Gyllideb wedi'u paratoi mewn ffordd gadarn hyd yma. Nid yw'r Gyllideb yn ddi-risg a byddai'n dibynnu ar gyflawni'r Arbedion Cyllidebol a amlinellir, er nad yw'r rhain ar yr un raddfa â phroses y Gyllideb ar gyfer 24/25. Bydd effaith hefyd ar drigolion Ceredigion yn sgil cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, ond mae hyn yn is na'r cynnydd o 11.1% a welwyd y llynedd. Gallaf gadarnhau hefyd fod y cynlluniau Cyfalaf presennol a'r Strategaeth Gyfalaf yn ddarvoudus ac yn fforddiadwy.

Bydd angen i'r gwaith o gyflawni Arbedion Cyllidebol gael ei fonitro'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn drwy'r trefniadau rheoli ariannol arferol. Mae hyn yn cynnwys bod y cyllidebau diweddaraf yn ystod y flwyddyn cael eu diweddarau'n rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet a'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, cyflwyno adroddiadau am eithriadau yn ôl yr angen a bod Deiliaid y Gyllideb yn cymryd camau cywiro yn ddigon cynnar yn y flwyddyn os bydd materion annisgwyl yn codi.

**Er ei bod yn bosibl llunio cyllideb gytbwys, mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig yn parhau i fod yn llwm ac mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn parhau i fod dan bwysau sylweddol. Mae'r gofrestr Risg Gorfforaethol yn cydnabod hyn gyda'r Risg Ariannol yn parhau i fod ar 25 - y sgôr uchaf posibl. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl wrth bennu strategaeth ariannol tymor canolig i'r tymor hir a fydd yn sicrhau bod cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor yn cael ei fodloni.**

## **Argymhellion:**

1. Nodi y bydd cynnydd arfaethedig cyllideb Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn creu pwysau costau o £301k ar Gyllideb 25/26 y Cyngor (sy'n cyfateb i gynnydd o oddeutu 0.6% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer trigolion Ceredigion).
2. Argymell bod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb yn ystyried yr opsiynau canlynol at ddibenion y Cyngor Sir ynghylch Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 ac o ganlyniad y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 25/26:
  - a) Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 o £209.109m, gan arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o £13.94 y mis ar gyfer eiddo Band D (9.7%), a fyddai'n cynnwys darpariaeth ar gyfer buddsoddiad o £230k yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio a buddsoddiad o £481k yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff.
  - b) Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 o £209.234m, gan arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o £14.24 y mis ar gyfer eiddo Band D (9.9%), a fyddai'n cynnwys darpariaeth ar gyfer buddsoddiad o £346k yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio a buddsoddiad o £481k yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff.
3. Pan gyhoeddir setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 25/26:
  - a) Bod gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu cyfeirio i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
  - b) Y dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
  - c) Y byddai unrhyw fudd o Gyllido Gwaelodol yn y Setliad Terfynol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r cynnydd i Dreth y Cyngor dangosol.
  - d) Bod unrhyw newid(newidiadau) eraill i'r AEF yn cael eu trin drwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
4. Nodi y bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddarau ar ôl Datganiad Ariannol nesaf y Canghellor (a ddisgwylir ar 26/03/25).
5. Nodi rhaglen arfaethedig y Ffioedd a Thaliadau drafft a nodir yn Atodiad 8, ac y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ffurfiol gan y Cabinet ar 18/02/25.
6. Nodi'r Rhaglen Gyfalaf Aml-Flwyddyn sydd yn Atodiad 10.
7. Nodi'r Strategaeth Gyfalaf sydd yn Atodiad 11.
8. Nodi y dylid ystyried unrhyw opsiynau newydd neu amgen ar gyfer Cyllideb ddrafft 25/26 yn ystod y cyfarfodydd i Graffu'r Gyllideb ac y byddai angen digon o amser ymlaen llaw ar y swyddog Adran 151 i

fodelu'n llawn unrhyw effeithiau posibl ac i roi barn ar gadernid unrhyw gynnig (gynigion).

9. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn at sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb, fel y gall y Cabinet ystyried eu hadborth ffurfiol ar 18/02/25, er mwyn i'r Cabinet wedyn wneud eu hargymhellion terfynol i'r Cyngor Llawn ar 03/03/25 ar y Gofyniad ar Gyllideb 25/26 a maint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 25/26.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Fel bod y gwaith o baratoi Cyllideb 2025/26 yn gallu mynd rhagddo.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.**

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb yn cael cyfle i ystyried y materion Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n codi o gynigion manwl y gyllideb fel rhan o'u hystyriaethau manwl o'r Gyllideb.

**Trosolwg a Chraffu:**

Ystyrir Cynigion y Gyllideb gan y Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu ar 03/02/25 a gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol ar 06/02/25 a 07/02/25.

**Fframwaith Polisi:**

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob elfen o Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob elfen o Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

Mae hyn yn rhan o'r broses o osod cyllideb ac o rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i osod Cyllideb erbyn 11 Mawrth bob blwyddyn.

**Goblygiadau staffio:**

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

**Goblygiadau o ran eiddo / asedau:**

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

**Risg(iau):**

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

**Pwerau Statudol:**

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

**Papurau Cefndir:**

Adroddiad i'r Cabinet ynghylch pennu sylfaen Treth y Cyngor – 03/12/24

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Llythyr gan y Gweinidog am y Setliad Dros Dro

Atodiad 2 - Gwybodaeth am y Setliad i bob Cyngor

Atodiad 3 - Manylion ynghylch y Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb

Atodiad 4 - Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb fesul Swyddog Arweiniol Corfforaethol

Atodiad 5 - Cynigion i gwtogi ar y Gyllideb

Atodiad 6 - Crynodeb o'r Gofynion ar gyfer y Gyllideb

Atodiad 7 - Symudiadau Cyllidebol 24/25 i 25/26

Atodiad 8 - Cynigion o ran Ffioedd a Thaliadau Unigol

Atodiad 9 - Risgiau i'r Gyllideb

Atodiad 10 - Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Atodiad 11 - Strategaeth Gyfalaf

Atodiad 12 - Datganiad Dros Dro ar y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau Cyffredinol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddogion Adrodd:**

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Corfforaethol

**Dyddiad:**

10/01/25

Jayne Bryant AS/MS  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai  
Cabinet Secretary for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JP/11113/24

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:

Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol  
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024

Annwyl Gyfeillion,

Heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwyf yn cyhoeddi manylion Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2025-26 ("y Setliad") i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ("Awdurdodau") yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Yn 2025-26, bydd yr Awdurdodau yn cael £6.1bn gan Lywodraeth Cymru o'r Grant Cynnal Refeniw ("RSG") ac ardrethi annomestig ("NDR") i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2025-26 yn cynyddu 4.3%, ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. O gofio'r ystod o godiadau mae'r llywodraeth yn agored i ystyried darparu cyllido gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol.

Er bod hwn yn setliad llawer gwell na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn hon, rwyf yn cydnabod y bydd penderfyniadau lleol anodd i'w gwneud unwaith eto. Ar gyfer 2025-2026 mae'r setliad refeniw heb ei neilltuo yn cynyddu £253m. Wrth benderfynu ar y cynnydd hwn, rydym wedi bod yn awyddus i ymateb i'r pwysau a nodwyd gennych yn ein trafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar dâl a phwysau mewn gwasanaethau rheng flaen. Yn benodol, rwyf yn ymwybodol o'r pwyntiau pwerus y mae partneriaid yr awdurdodau lleol ac ysgolion wedi'u gwneud ynghylch pwysau mewn ADY a darpariaeth addysg ehangach. Mae ein penderfyniadau ar gyllid hefyd yn cydnabod ein hagenda polisi a chyflawni hanfodol bwysig ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys camau tuag at ddileu elw o ofal plant, parhau â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gwella mynediad at ofal cymdeithasol a chynnal y cap gofal yn £100 yr wythnos ochr yn ochr â chefnogi'r dull 'system gyfan' o ofalu yn nes at adref.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2025-26 yw'r flwyddyn gyntaf y bydd ardrethi a ddargedwir yn cael eu talu fel rhan o'r Setliad. Mae swm o £268k, sef ardrethi cronedig sydd wedi'u priodoli i Fargen Ddinesig Bae Abertawe ers 2018-19, wedi'i ddiwynnu cyn pennu'r ffigur Cyllid Allanol Cyfun ("AEF"). Mae'r cyfanswm hwn yn cael ei dalu i awdurdodau perthnasol y Fargen Ddinesig honno (sef Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot). Mae'r ffigur cyfatebol wedi'i dalu i mewn i'r pwll NDR a'i ddsbarthu drwy'r setliad mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd dargadw ardrethi yn nodwedd ar setliadau yn y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd yn cynyddu mewn gwerth wrth i drefniadau eraill ar gyfer dargadw ardrethi ddod i rym.

Yn ogystal â'r Setliad craidd, rwyf yn cyhoeddi gwybodaeth ddangosol ar grantiau refeniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2025-26, sy'n dod i bron £1.1 biliwn ar gyfer refeniw a thros £1.0 biliwn ar gyfer cyfalaf ar y cam dros dro hwn.

Mae'r gwaith o leihau'r baich gweinyddol ar yr Awdurdodau, yr ymrwymwyd iddo fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu wedi parhau. Mae tri grant arall o dai, a oedd yn ariannu gweithgarwch craidd wedi'u trosglwyddo i'r setliad. Mae gwaith wedi'i gwblhau neu'n mynd rhagddo mewn meysydd grant eraill i symleiddio faint o fonitro sydd ar grantiau, er mwyn sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ond yn casglu'r wybodaeth y mae arni hi a'r Awdurdodau ei hangen, i ddeall effaith a chanlyniadau rhaglenni grant. Mae hyn wedi cynnwys lleihau amllder ffurflenni monitro, symleiddio ffurflenni cais am grant a meddu ar feini prawf graddedig ar gyfer achosion busnes yn dibynnu ar faint a risg rhaglenni neu brosiectau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chi i ddeall effaith y newidiadau cynnar i grantiau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25, er enghraifft cyfuno grantiau addysg i lywio cam nesaf y gwaith hwn.

Ariannwyd y newid i'r gyfradd SCAPE yn 2024-25 drwy grant penodol ar gyfer athrawon plant cyn 16 oed (£61m) a'r gwasanaeth tân (£3m). Mae hyn wedi'i osod fel llinell sylfaen yn y setliad yn 2025-26, gan fy mod yn disgwyl i'r costau cynyddol i'r gwasanaeth tân gael eu cynnwys yn ei ardoll i chi.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gyllid ychwanegol i gefnogi Awdurdodau ac ysgolion gydag effeithiau cyllidebol y gwahaniaeth rhwng y codiad cyflog a gynlluniwyd a'r cynnydd yn y dyfarniad cyflog am y saith mis sy'n dod i mewn i 2024-25. Mae'r cyllid hwn o £18m wedi'i osod fel llinell sylfaen yn Setliad 2025-26 ac mae £13m yn ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer costau'r flwyddyn gyfan. Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu'r holl gyllid sydd ar gael ymlaen llaw a pheidio â dal cyllid yn ôl ar gyfer cydnabod cytundeb cyflog athrawon 2025-26 yn ystod y flwyddyn. Felly, wrth gynllunio cyllidebau, rhaid i awdurdodau ystyried y costau hyn.

Yr wythnos diwethaf cyhoeddwyd cyllid ychwanegol i gefnogi pwysau cyflog mewn Awdurdodau, yn dilyn dyfarniadau cyflog uwch na'r bwriad gan NJC, sef £52m. Mae hyn wedi'i osod fel llinell sylfaen yn y Setliad ochr yn ochr â £900k ar gyfer pwysau cyflog gwasanaethau tân, a fydd yn llifo drwy'r ardoll. Rhaid i waith cynllunio'r gyllideb gan yr awdurdodau, yn ôl yr arfer, ddarparu ar gyfer unrhyw godiadau yn y dyfodol.



Prisiau ffotograffau (Er defnydd masnachol)	Delwedd ddigidol a anfonir drwy e-bost (fymryn o dan 1mb)	Addysgol/Academaidd	£10.00	£11.00	£1.00	10.0%	Chwyddiant cysylltiedig
		Llyfrau	£35.00	£37.00	£2.00	5.7%	Chwyddiant cysylltiedig
	Delwedd ddigidol a anfonir drwy e-bost	Ffotograffau real, yn enwedig rhai a gomisiynwyd	£50.00	£53.00	£3.00	6.0%	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio'r Stafell Addysg	Yr awr		£40.00	£42.00	£2.00	5.0%	Chwyddiant cysylltiedig
	Yr awr gyda cymorth		£45.00	£48.00	£3.00	6.7%	Chwyddiant cysylltiedig

**Ffi gyfredol**      **Ffi arfaethedig**      **Newid (yn £)**      **Newid (yn %)**      **Math o newidiad**

**Hurio Cyfleusterau**

**Atodiad 3: Cymunedau Ffyniannus**

Taliadau Grŵp A	Aberystwyth, Amgueddfa Ceredigion: Yr Oriol Arddangos	Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£81.00	£85.00	£4.00	4.9%	Chwyddiant cysylltiedig
Taliadau Grŵp B		Penwythnos - Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£81.00	£85.00	£4.00	4.9%	Chwyddiant cysylltiedig

*Amodau Cyffredinol Grŵp A: Digwyddiadau a drefnir gan sefydliadau (ac eithrio cyrff cyhoeddus), nad eu diben yw gwneud elw preifat neu fel busnes, ac eithrio dawnsfeydd a disgos. Mae'n cynnwys sefydliadau allanol a ariannir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan y Cyngor.*

*Amodau Cyffredinol Grŵp B: Digwyddiadau a drefnir:-1. At ddibenion masnachol gan arwain at elw breifat neu fel busnes, e.e. arwerthiannau, arddangosfeydd masnachol.2. Gan gyrrff cyhoeddus, e.e. clinigau iechyd, sesiynau rhoi gwaed a dosbarthiadau nos.3. At holl ddibenion dawnsfeydd a disgos.*

*Amseroedd sesiynau:• Bore – 9.00yb tan 1.00yp• Prynawyn – 1.00yp tan 5.00ypGyda'r hwyr – ar ôl 5.00ypDim ond ar ddyddiau'r wythnos y cynigir cyfraddau gostyngolBydd sesiynau gyda'r hwyr yn dod i ben cyn 10.00yhMae sesiwn undydd yn golygu 9.00yb tan 5.00yp oni bai y nodir fel arall. Defnyddwyr rheolaidd neuaddau – cyfraddau i'w trafod gyda'r Prif Swyddog Ystadau Rheolwr Grŵp (Pris y cyfarfod). Gallwch ddefnyddio Ystafelloedd 5,6 a 7 mewn cyfuniad h.y 5 a 7, neu 5 a 6, neu 6 a 7*

## **Risgiau'r Gyllideb**

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar gyfer y gyllideb ynghyd â'r sylwadau priodol, a'r mesurau sydd ar waith i leihau'r risg:

### **1. Newidiadau i lefel Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru**

Mae swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig a gaiff eu hailddosbarthu bellach yn darparu ychydig o dan 70% o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw net y Gronfa Gyffredinol. Gall newidiadau i'r modd y caiff grantiau eu dosbarthu gael effaith fawr ar gyllid y Cyngor. Gall y Cyngor gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru'n uniongyrchol a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio dylanwadu ar y newidiadau a wneir.

**Mae'r rhagolygon economaidd tebygol yn dal i gynnig her ariannol sylweddol i'r Cyngor. Bydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiweddaedig yn cael ei hystyried yn dilyn Datganiad ariannol nesaf y Canghellor ar 26/03/25. Bydd angen i hon ystyried hefyd adroddiadau lleol a chenedlaethol Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol Llywodraeth Leol.**

### **2. Newidiadau annisgwyl cyffredinol mewn gwariant a / neu incwm yn ystod y flwyddyn**

Un rheswm pam y mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn yw er mwyn cynnig rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn newidiadau annisgwyl. Mae system fisol reolaidd ar waith i fonitro'r gyllideb, gydag adroddiadau chwarterol ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ynghyd ag adroddiadau am eithriadau rhwng y cyfnodau hynny. Mae cynnal Cronfa Wrth Gefn Gorfforaethol fechan hefyd yn cynorthwyo gyda lefel benodol o liniaru risg yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gan fod y Dyfarniadau Cyflog Staff Cyffredinol yn anodd eu rhagweld a lefelau chwyddiant yn parhau'n uchel.

Mae'r Cyngor yn yswirio yn erbyn y prif risgiau hysbys megis difrod tân, atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus.

### **3. Newidiadau o ran incwm grant penodol**

Mae'r Cyngor yn derbyn symiau mawr bob blwyddyn ar ffurf grantiau penodol. Pe bai rheolau'r Llywodraeth yn newid neu pe baem drwy amryfusedd yn methu â chydymffurfio ag amodau grantiau, mae risg bosib y gallem golli incwm grant sylweddol. Mae archwilwyr allanol y Cyngor yn mynd ati'n gyson i adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau, a rhoddir gwelliannau gweithdrefnol ar waith lle bo angen i sicrhau nad ydym yn colli unrhyw incwm grant.

Hefyd mae risg bosib pe bai grantiau refeniw penodol Llywodraeth Cymru'n dod i ben, ond yn aml mae disgwyliad bod angen i'r gwasanaethau a ariennir drwy grantiau o'r fath gael eu cynnal ar yr un lefel. Lle bynnag y bo

modd, dylid paratoi strategaethau ymadael i ymdrin â'r canlyniadau pan fydd cyllid grant yn dod i ben.

Yn y pen draw, bydd toriad mewn cyllid grant bron bob amser yn golygu bod yn rhaid i Wasanaethau dorri eu brethyn yn unol â hynny. Dim ond drwy eithriad y byddai hyn yn cael ei drin fel mater corfforaethol.

#### **4. Twyll (gan gynnwys Seiberddiogelwch)**

Gallai twyll mawr achosi colled ariannol sylweddol i'r Cyngor yn ogystal â gwanhau hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cynnal system o reoliadau ariannol a rheolau sefydlog i reoli'r risg hon ochr yn ochr â threfniadau cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl a pharhad busnes. Mae Gweithgor o Swyddogion yn weithredol sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a chydnerthedd busnes sy'n gysylltiedig â hyn. Fel rhan o'i chylch gorchwyl, bydd adain Archwilio Mewnol y Cyngor yn ymchwilio i risgiau posib o ran twyll, yn rhoi cyngor ynghylch arfer dda, ac yn sicrhau bod systemau rheoli mewnol digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn.

#### **5. Ansoffedd Partïon i Contractau**

Gallai'r Cyngor wynebu colledion yn sgil ansoffedd partneriaid pwysig neu gyflenwyr masnachol. Mae hon yn risg benodol mewn perthynas â thrafodion buddsoddi. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisiau Rheoli'r Trysorlys i ledaenu a lleihau'r risgiau yn y maes hwn. Mae partneriaid masnachol a chontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor yn destun asesiadau ariannol ac asesiadau eraill (e.e. adroddiadau Dun & Bradstreet), a gellir cyfyngu maint y contractau sy'n cael eu dyfarnu ar ôl ystyried canlyniadau asesiadau o'r fath.

#### **6. Cronfeydd Pensiwn**

- a) Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Dyfed, ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor a'r Cynghorwyr sy'n dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Gweinyddir y gronfa gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynllun buddion wedi'i ddiffinio yw'r cynllun pensiwn ac mae'n gynllun sy'n cael ei gefnogi gan asedau, sy'n golygu mai'r cyflogwr yn unig sy'n ysgwyddo'r risg mewn perthynas ag adenillion buddsoddi a newidiadau demograffig.

Yn seiliedig ar brisiad Tair Blynedd Mawrth 2022, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gyffredinol o warged (h.y. aseswyd yn actiwaraid bod rhwymedigaethau'r presennol a'r dyfodol wedi'u gor-gyllido o fwy na 100%). Gall y Cyngor gynllunio ar gyfer senarios o Warged neu Ddiffyg i'w gwasgaru dros gyfnod o sawl blwyddyn er mwyn lleihau unrhyw effaith uniongyrchol ar y gyllideb. Y gyfradd bresennol o ran cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Ceredigion yw 14.6%.

- b) Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer yr athrawon sy'n dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Gweinyddir y gronfa gan yr Adran Addysg o dan y Llywodraeth ganolog. Mae'r cynllun yn gynllun buddion wedi'i ddiffinio ond mae'n gynllun nas cyllidir, yn wahanol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu heffeithio gan newidyn allweddol o'r enw cyfradd ddisgownt SCAPE (*Superannuation Contributions Adjusted for Past Experience*). Arweiniodd yr adolygiad diweddaraf o SCAPE at gynyddu cyfradd cyfraniadau cyflogwyr yn genedlaethol o 23.6% i 28.6% o 01/04/24 ymlaen. Mae cyllid wedi dod i law erbyn hyn yn ystod 24/25 a hefyd wedi ei drosglwyddo i Setliad 25/26 Llywodraeth Cymru ar gyfer cost y cynnydd hwn, fel ei fod bellach yn cael ei ariannu o gyllideb sylfaen y Cyngor.
- c) Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cyfrannu at Gynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân ar gyfer ymladdwyr tân sydd wedi dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Mae'r cynllun yn gynllun buddion wedi'i ddiffinio ond mae hefyd yn gynllun nas cyllidir. Mae risg y byddai unrhyw newid sylweddol yng nghyfradd cyfraniadau cyflogwyr yn arwain at gynydd yn yr ardoll y mae'r Cyngor yn ei dalu i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn ogystal, effeithir y cynllun gan y gyfradd ddisgownt SCAPE ac felly bydd cynnydd sylweddol yn y costau i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae cyllid wedi dod i law erbyn hyn yn ystod 24/25 a hefyd wedi ei drosglwyddo i Setliad 25/26 Llywodraeth Cymru ar gyfer cost y cynnydd hwn, fel ei fod bellach yn cael ei ariannu o gyllideb sylfaen y Cyngor.

## **7. Cyfraddau Llog**

Mae gan y Cyngor fenthyciadau hirdymor sylweddol ochr yn ochr â buddsoddiadau. Gall newidiadau i'r cyfraddau llog gael effaith sylweddol ar incwm llog ac ar gost benthyciadau newydd sydd eu hangen i gefnogi gwariant cyfalaf newydd.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog a'u heffaith fel rhan o'r broses ar gyfer monitro'r gyllideb. Mae Banc Lloegr wedi dechrau gostwng Cyfradd Swyddogol y Banc sy'n 4.75% wrth ysgrifennu'r hyn o eiriau. Rhagwelir rhagor o ostyngiadau graddol ond mae costau benthyg wedi codi yn ddiweddar. Gweithredwyd strategaeth benthyca mewnol ers blynyddoedd lawer gan gadw benthyca allanol i lawr drwy ddefnyddio arian parod sy'n caei ei ddal ar gyfrif (sydd mewn gwirionedd yn cynrychioli'r eitemau sydd â chefnogaeth arian parod wrth gefn ar y fantolen megis y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd).

Fodd bynnag mae cyfraddau llog wedi dod i anterth erbyn hyn, ac wrth i'r cyfraddau llog ostwng, a lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ostwng, bydd y gallu i ennill yr un lefel o incwm buddsoddi yn lleihau.

**8. Chwyddiant cyflogau (gan gynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr)**

Costau gweithwyr yw elfen fwyaf y gyllideb. Bydd cynnydd mawr mewn cyfraddau cyflogau yn cael effaith niweidiol ar gyllideb y Cyngor. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, caiff cyflogau eu trafod ar raddfa genedlaethol naill ai ar lefel y Deyrnas Unedig (NJC - Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol) neu ar lefel Llywodraeth Cymru (Athrawon) ac nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth na rhan uniongyrchol yn y trafodaethau a gynhelir.

Gyda llog yn parhau i fod yn uchel, mae'r dyfarniadau Tâl yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn eitemau sylweddol o ran costau. Mae'r risg yn parhau y bydd dyfarniadau Tâl yn parhau i fod yn uchel yn 25/26 er bod llog y CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) bellach o dan 3%. Caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan godiadau sylweddol Llywodraeth y DU yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Drwy weithredu'r cytundeb statws sengl a gwerthuso graddau yn systematig, nod y Cyngor yw cynnal strwythur tâl sy'n deg ond fforddiadwy.

Ym mis Hydref 2024 cyhoeddodd y Canghellor gynnydd sylweddol yn Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen drwy newid y gyfradd (o 13.8% i 15.0%) yn ogystal â'r trothwy ar gyfer dechrau talu Yswiriant Gwladol (i lawr o £9,100 i £5,000). Cynghorir Awdurdodau Lleol y bydd eu staff cyflogedig yn dod o dan ddiffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Gyflogeion y Sector Cyhoeddus, felly dylai cyllid ddod tuag at y costau uwch. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael ei benderfynu hyd nes y bydd blwyddyn ariannol 25/26 wedi dechrau a bydd yn dibynnu ar faint o gyllid y bydd Trysorlys EM yn ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ac yn ei dro faint o hwnnw fydd yn cael ei ddosbarthu i Lywodraeth Leol. Felly mae ansicrwydd o hyd ynghylch faint o gyllid a dderbynnir ar gyfer amrywiad cyllidebol mor fawr a gwnaed rhagdybiaeth ofalus yn amcangyfrifon y Gyllideb. Yn ogystal, ni ddisgwylir unrhyw gyllid o gwbl ar gyfer costau anuniongyrchol megis y rhai sy'n effeithio ar ddarparwyr allanol allweddol yn y sector Gofal Cymdeithasol.

**9. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau**

Rydym dal mewn cyfnod o chwyddiant sy'n uwch na'r cyfartaledd ac mae'r lefelau yn rhai nas gwelwyd ers cyn 2008. Mae gan Fanc Lloegr gyfrifoldeb i gadw chwyddiant ar y trywydd iawn ar tua 2%, fodd bynnag cododd chwyddiant CPI i dros 11% cyn dechrau disgyn yn ôl (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae wedi disgyn i 2.6% yn seiliedig ar CPI mis Tachwedd). Caiff hyn effaith ar gontractau presennol â chyflenwyr sy'n cynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn ogystal â phrisio contractau newydd (refeniw a chyfalaf).

Mae cyflenwyr sy'n gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol hefyd yn cael eu heffeithio gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig, sydd wedi

cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn, gan achosi costau chwyddiant sylweddol o ran y gwasanaethau gofal a gomisiynir yn allanol.

Felly mae chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn parhau i fod yn risg gyllidebol, yn enwedig o ran effaith Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ar gyflenwyr a sut maen nhw'n dewis dygymod ag ef. Mae'r chwyddiant ar gyfer Ceredigion yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r mesuriad CPI cenedlaethol.

### **10. Effeithiau ar ôl COVID-19**

Roedd 2020 hyd 2022 yn gyfnod digynsail i'r Cyngor yn ariannol ac yn weithredol oherwydd pandemig COVID-19. Er bod y risg ar raddfa fawr a fodolai wedi chwalu i raddau helaeth, mae effeithiau ar ôl COVID yn dal i gael eu gweld mewn sawl man.

Mae hyn yn amrywio o heriau recriwtio a chadw staff mewn sawl gwasanaeth i bethau ymarferol gweithredol, e.e. o ran yr achosion sy'n dod i sylw Addysg a Gofal Cymdeithasol, mae mwy ohonynt ac maent yn fwy cymhleth na'r cyfnodau 'normal' cyn COVID. Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, ynghyd â chynnydd mewn meysydd eraill megis Anghenion Dysgu Ychwanegol a lleoliadau preswyl ar gyfer Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

### **11. Defnyddio Staff Asiantaeth**

Mae'r her recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn arwyddocaol iawn, gyda nifer o feysydd Gofal Cymdeithasol yn benodol yn parhau i ddefnyddio staff asiantaeth. Gwneir hyn er mwyn cyflenwi swyddi Gweithwyr Cymdeithasol proffesiynol sy'n swyddi craidd a statudol, ynghyd â chyflenwi shifftiau yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol. Gweithredwyd strategaethau Adnoddau Dynol amrywiol gan gynnwys cynnig taliadau atodol ar sail y farchnad i weithwyr cymdeithasol, ond mae'r defnydd a wneir o staff asiantaeth yn parhau i fod yn sylweddol ac mae'n peri risg ariannol sylweddol a pharhaus.

### **12. Ffosffadau**

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig afonol Afon Teifi ynghyd â datganiad sefyllfa / canllawiau cynllunio dros dro ym mis Mai 2021.

Mae effaith hyn yn cwmpasu 45% o dir Ceredigion a bydd hyn yn creu problemau sylweddol o ran datblygu yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio nes y bydd y mater wedi'i ddatrys. O safbwynt cul, gallai hyn effeithio ar feysydd megis incwm rheoli adeiladu a ffioedd cynllunio, ond mewn ystyr ehangach gallai achosi goblygiadau pellgyrhaeddol o ran datblygu tai a datblygu economaidd.

Mae rhywfaint o hyblygrwydd wedi dod i'r amlwg mewn rhai meysydd ond disgwylir am fanylion llawn rhaglenni buddsoddi Dŵr Cymru at y dyfodol.



Gallai buddsoddiad cynnar leihau'r risg a nodwyd. Serch hynny, rhagwelir rhagor o gyfyngiadau pan fydd tystiolaeth a chanllawiau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn gynnar yn 2025.

### **13. Premiymau Treth y Cyngor**

Roedd penderfyniad y Cyngor ar 14/12/23 i gynyddu Premiymau Treth y Cyngor yn achos Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor yn newidiad sylweddol o ran polisi.

Mae nifer y tai sy'n destun Premiwm Treth y Cyngor yn y gwahanol gategoriâu yn cael ei fonitro'n ofalus ac yn rheolaidd er mwyn deall y tueddiadau posib ac i weld pa newid ymddygiadol sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad (e.e. Pa gyfran o berchnogion tai fydd yn dewis talu'r Premiwm ar y lefel newydd a faint fydd yn ceisio'i osgoi neu yn dewis gwerthu'r eiddo). Mae'n ddyddiau cynnar o hyd i'r polisi newydd, yn enwedig gyda'r cynnydd i'r cam nesaf o 150% a fydd yn berthnasol ar gyfer Ail Gartrefi o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Felly mae risgiau i gyfraddau casglu Treth y Cyngor ynghyd â nifer yr eiddo sy'n destun premiwm, fodd bynnag pennwyd yr amcangyfrifon ar gyfer sylfaen y dreth mewn modd darbodus.

### **14. Mesurau Diogelwch Tân**

O ganlyniad i ddeddfwriaeth yn dilyn trychineb Grenfell, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cynyddu nifer yr arolygiadau diogelwch tân mewn ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau allweddol eraill y Cyngor.

Mae'r archwiliadau tân diweddaraf wedi tynnu sylw at y ffaith fod angen cryn dipyn o waith er mwyn i holl adeiladau'r Cyngor gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae costau refeniw a chyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â sicrhau bod holl adeiladau'r Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer pob adeilad wrth iddynt gael eu harchwilio a'u harolygu. Mae hyn yn cynnwys creu Strategaeth Dân ar gyfer pob eiddo unigol fel bod modd blaenoriaethu gwaith diogelwch tân gan gydnabod mai ond hyn a hyn o adnoddau sydd ar gael.

### **15. Heriau Cyfreithiol Allanol**

Wrth i sefyllfa'r Gyllideb fynd yn anoddach (ac wrth i benderfyniadau'r Aelodau fynd yn anoddach hefyd ac yn fwy dadleuol eu natur oherwydd yr effaith fawr bosib ar wasanaethau rheng flaen) bydd y risg y caiff y penderfyniadau hyn eu herio yn allanol yn codi hefyd. Gall effaith hyn amrywio, o gael effaith ar adnoddau sydd eisoes dan bwysau i ailystyried penderfyniadau unigol os yw'r sail ar gyfer hynny yn ddigon cadarn.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei Wasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol felly byddai osgoi gwneud newidiadau i Wasanaethau pan mae dulliau mwy arloesol ac effeithlon o gyflenwi ar gael yn rhywbeth na fyddai'n cynnig gwelliant parhaus a gwerth am arian i'r trethdalwr.

### **16. Cyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr o ran Pecynnu**

Mae Llywodraeth y DU, drwy DEFRA, yn cyflwyno rheoliadau newydd mewn perthynas â Chyfrifoldebau Cynhyrchwyr (Deunyddiau Pecynnu a Gwastraff Pecynnu). O ganlyniad, bydd cynhyrchwyr deunyddiau pecynnu na ellir eu hailgylchu yn dechrau talu ardoll ar eu cynhyrchion unwaith y daw'r rheoliadau i rym.

Bydd y rheoliadau hefyd yn mynnu bod rhan o'r arian a godir drwy'r ardoll hon yn cael ei hailddosbarthu i Awdurdodau Lleol ledled y DU er mwyn eu helpu gyda'r gost o gasglu a gwaredu gwastraff. Mae hon yn gyfres gymhleth o newidiadau ac nid yw'n eglur sut yn union fydd y system newydd yn gweithio o ddydd i ddydd na chwaith beth fydd yn ei olygu'n ariannol (gan gynnwys ei effaith ar gyllid grant presennol Llywodraeth Cymru – Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy).

**Rhaglen Gyfalaf Amflwyddyn Arfaethedig 2024/25 - 2027/28**

2024/25 Diweddaraf			2025/26			2026/27 Dangosol			2027/28 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

**Ysgolion a Dysgu Gydol Oes**

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	3,366	4,094	7,460	-	-	-	-	-	-	-	-	
Ysgol Henry Richards	24	-	24	-	-	-	-	-	-	-	-	
Canolfan Trochi Iaita a bloc dosbarth newydd	-	40	40	-	1,710	1,710	-	3,658	3,658	-	-	
Anghenion Dysgu Ychwanegol - Addasiadau i Adeiladau To Newydd Llwyn yr Eos	-	451	451	-	-	-	-	-	-	-	-	
To Newydd Llwyn yr Eos	105	-	105	-	-	-	-	-	-	-	-	
Darpariaeth Gofal Plant	-	1,426	1,426	-	-	-	-	-	-	-	-	
To Newydd yr Amgueddfa	100	-	100	1,000	-	1,000	-	-	-	-	-	
Ysgolion - Gwaith Gyfalaf Ychwanegol	1,387	902	2,289	-	-	-	-	-	-	-	-	
Ysgol Gyfun Aberaeron - Wal gynnal	26	-	26	250	-	250	-	-	-	-	-	
Systemau gwresogi o dan y llawr - Ysgolion	120	-	120	250	-	250	-	-	-	-	-	
Gwaith Brys mewn Ysgolion	120	-	120	150	-	150	150	-	150	-	150	
<b>Cyfanswm - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes</b>	<b>5,248</b>	<b>6,913</b>	<b>12,161</b>	<b>1,650</b>	<b>1,710</b>	<b>3,360</b>	<b>150</b>	<b>3,658</b>	<b>3,808</b>	<b>150</b>	<b>-</b>	<b>150</b>

**Porth Cymorth Cynnar**

Gwaith Brys mewn Canolfannau Llesiant	267	-	267	50	-	50	50	-	50	50	-	50
Adnoddau Canolfannau Llesiant	-	-	-	100	-	100	100	-	100	100	-	100
Chwaraeon Cymru Cam 2 - Uwchraddio Cyfleusterau Llesiant	212	9	221	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Chwaraeon Cymru - Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni Pyllau Nofio	-	-	-	70	202	272	-	-	-	-	-	-
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	45	-	45	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cynllun Tai Cymunedol	400	-	400	800	-	800	500	-	500	-	-	-
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	-	146	146	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	4	-	4	161	-	161	-	-	-	-	-	-
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	1,453	-	1,453	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cronfa Tai à Gofal CTG Amcan 3 (Porth Cymorth Cynnar)	-	148	148	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol	82	-	82	82	-	82	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar</b>	<b>3,863</b>	<b>303</b>	<b>4,166</b>	<b>2,663</b>	<b>202</b>	<b>2,865</b>	<b>2,050</b>	<b>-</b>	<b>2,050</b>	<b>1,550</b>	<b>-</b>	<b>1,550</b>

2024/25 Diweddaraf			2025/26			2026/27 Dangosol			2027/28 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

### Economi ac Adfywio

Gwaith Trin Carthion	125	-	125	375	-	375	-	-	-	-	-
Gwaith brys - Adeiladau	70	-	70	50	-	50	100	-	100	100	-
Gwaith brys - Tir	-	-	-	150	-	150	150	-	150	50	-
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed Ffyrdd Newydd o Weithio	175	-	175	175	-	175	-	-	-	-	-
Adeiladau - Adnewyddu Elfennau Allweddol	-	-	-	600	-	600	600	-	600	525	-
Buddsoddiadau mewn Cynlluniau Ynni	500	-	500	1,002	-	1,002	250	-	250	250	-
Uwchraddio Llinellau Digidol	40	-	40	100	-	100					
Cyflymydd Cysylltedd Gwledig	-	46	46	-	-	-					
Rhaglen Datblygu Asedau	-	180	180	-	-	-	-	-	-	-	-
Neuadd y Farchnad Aberteifi	108	-	108	-	-	-	-	-	-	-	-
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau	50	-	50	50	-	50	50	-	50	-	50
Grant Gwella Mynediad	-	110	110	-	-	-	-	-	-	-	-
Grant Adferiad Gwyrdd	-	11	11	-	-	-	-	-	-	-	-
Strata Florida	60	-	60	-	-	-					
Arian Cyfalaf Lleodd Lleol ar gyfer Natur	-	620	620	-	-	-	-	-	-	-	-
Arfor Rhaglen 2	-	200	200	-	-	-	-	-	-	-	-
Pympiau Sgrw Ystad Ddiwydiannol Glan yr Afon	150	-	150	150	-	150	-	-	-	-	-
Prosiectau Ffyniant Bro	-	4,499	4,499	-	2,630	2,630	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Economi ac Adfywio</b>	<b>1,278</b>	<b>5,666</b>	<b>6,944</b>	<b>2,652</b>	<b>2,630</b>	<b>5,282</b>	<b>1,150</b>	<b>-</b>	<b>1,150</b>	<b>975</b>	<b>-</b>
										<b>975</b>	

2024/25 Diweddaraf			2025/26			2026/27 Dangosol			2027/28 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

### Highways and Environmental Services

Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Prifffyrdd	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080
Gwelliannau Prifffyrdd (Menter Benthycu Lleol)	-	-	-	2,328	-	2,328	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau Amgylcheddol	60	-	60	60	-	60	60	-	60	-	-	60
Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Gwelliannau i Seilwaith Coridorau Bysiau TrawsCymru	-	950	950	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Trawsnewid - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn	-	490	490	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC)	8	121	129	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Pwyntiau Gwefru yng Nglanyrafon, Penrhos ayb	20	711	731	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Arian Craidd Y Gronfa Teithio Llesol 2024-25	-	500	500	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gronfa Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS - Cam 1	-	300	300	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dyranriad Craidd 20mya	-	135	135	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Llwybrau mwy diogel mewn cymunedau Cyswllt Troedffordd SRIC	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Rhiwgoch io Aberaeron BA2024/25	-	358	358	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Goleuadau Stryd - Buddsoddi i Arbed	110	-	110	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Seilwaith Parcio	250	-	250	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth	-	46	46	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont	-	55	55	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu ~Gwaith mân 24/25 Cyfrffos Taliesin	-	55	55	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ffyrdd heb eu mabwysiadu - Nant Seilo, Penrhyncoch	17	50	67	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Llwybr Ystwyth Llanilar	-	50	50	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth	-	270	270	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog	-	22	22	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas	-	38	38	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron	22,134	-	22,134	4,477	-	4,477	-	-	-	-	-	-
Cerbydau Newydd i'r Fflyd	935	-	935	1,181	-	1,181	1,750	-	1,750	1,750	-	1,750
<b>Cyfanswm - Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>	<b>25,614</b>	<b>4,151</b>	<b>29,765</b>	<b>10,126</b>	<b>-</b>	<b>10,126</b>	<b>3,890</b>	<b>-</b>	<b>3,890</b>	<b>3,890</b>	<b>-</b>	<b>3,890</b>

2024/25 Diweddaraf			2025/26			2026/27 Dangosol			2027/28 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

### Porth Gofal

Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl	90	-	90	100	-	100	100	-	100	100	-	100
Y Gronfa Tai â Gofal - Llety Diogel i Blant	40	1,139	1,179	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Uwchraddio Cartrefi Preswyl	830	-	830	506	-	506	250	-	250	250	-	250
Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun	200	-	200	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg	-	30	30	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cronfa Tai â Gofal CTG gyda Amcan 3 Cronfa Gofal Porth Gofal	-	113	113	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Porth Gofal</b>	<b>1,160</b>	<b>1,282</b>	<b>2,442</b>	<b>606</b>	<b>-</b>	<b>606</b>	<b>350</b>	<b>-</b>	<b>350</b>	<b>350</b>	<b>-</b>	<b>350</b>

### Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Ceredigion a Phowys)	-	3,847	3,847	-	3,943	3,943	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig</b>	<b>-</b>	<b>3,847</b>	<b>3,847</b>	<b>-</b>	<b>3,943</b>	<b>3,943</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>

### Cyswllt Cwsmeriaid

Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh	300	-	300	300	-	300	300	-	300	300	-	300
Digidol360 Refeniw a Buddion	76	-	76	-	-	-	-	-	-	-	-	-
TGCh- Rhaglen feddalwedd Ceri	80	-	80	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid</b>	<b>456</b>	<b>-</b>	<b>456</b>	<b>300</b>	<b>-</b>	<b>300</b>	<b>300</b>	<b>-</b>	<b>300</b>	<b>300</b>	<b>-</b>	<b>300</b>

### Cyllid a Chaffael

Cynllun Grantiau Cymunedol	100	-	100	100	-	100	100	-	100	100	-	100
<b>Cyfanswm - Cyllid a Chaffael</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>100</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>100</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>100</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>100</b>

### Diwygio Gwasanaethau

Cyfarwyddyd Cyfalafu - Diwygio Gwasanaethau	100	-	100	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm - Diwygio Gwasanaethau</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>100</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>

### **CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH**

<b>37,819</b>	<b>22,162</b>	<b>59,981</b>	<b>18,097</b>	<b>8,485</b>	<b>26,582</b>	<b>7,990</b>	<b>3,658</b>	<b>11,648</b>	<b>7,315</b>	<b>-</b>	<b>7,315</b>
---------------	---------------	---------------	---------------	--------------	---------------	--------------	--------------	---------------	--------------	----------	--------------

Arian wrth gefn	100	-	100	250	-	250	250	-	250	250	-	250
Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	110	1,716	1,826	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200
<b>Cyfanswm - Arian wrth gefn</b>	<b>210</b>	<b>1,716</b>	<b>1,926</b>	<b>450</b>	<b>4,000</b>	<b>4,450</b>	<b>450</b>	<b>4,000</b>	<b>4,450</b>	<b>450</b>	<b>4,000</b>	<b>4,450</b>

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

2024/25 Diweddaraf			2025/26			2026/27 Dangosol			2027/28 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000
38,029	23,878	61,907	18,547	12,485	31,032	8,440	7,658	16,098	7,765	4,000	11,765

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**STRATEGAETH GYFALAF**

1. Bydd y Cyngor yn ffurfio Rhaglen Gyfalaf aml-flwyddyn gyda'r nod o weithio tuag at orwel cynllunio ariannol Cyfalaf hirdymor.
2. Bydd yn ofynnol i holl wariant Cyfalaf a gynlluniwyd, cynigion Cyfalaf a buddsoddiad Cyfalaf arfaethedig mewn asedau sydd eisoes yn bodoli neu asedau newydd, boed hynny drwy gyllid grant neu fel arall, gefnogi Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 a'r Blaenoriaethau Corfforaethol sylfaenol ac amcanion cysylltiedig Gwasanaethau. Dylai Cynllunio Rheoli Asedau fod o gymorth wrth fod yn sail i bennu'r Rhaglen Gyfalaf a gwariant hanfodol ar asedau'r Cyngor sydd eisoes yn bodoli.
3. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol (sy'n rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd priodol i brosiectau), Grŵp Monitro Cyfalaf (sy'n rhoi rheolaeth weithredol ar gyfer gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ariannu) a Grŵp Datblygu (sy'n rhoi mewnbwn strategol ehangach ar gynigion a chyfluoedd datblygu Cyfalaf). Bydd gan y 3 Grŵp rôl allweddol ond mae gan bob un ohonynt eu Cylch Gorchwyl penodol eu hunain.
4. Bydd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn amlinellu sut y bwriedir ymdrin â gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Trysorlys megis Buddsoddiadau a Benthycia gan hefyd alinio'n llawn a rhoi cyfrif am gynigion y Rhaglen Gyfalaf. Bydd hefyd yn cynnwys manylion ar y lefelau benthycia arfaethedig (yn fewnol ac yn allanol) sy'n gyson â'r cynlluniau hyn a'r angen i fod yn ddarbodus. Bydd y Strategaeth Rheoli Trysorlys hefyd yn cynnwys Polisi Isafswm Refeniw'r Cyngor ar gyfer darparu ad-daliad o'r ddyled dros ei hoes.
5. Rheolir y Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan swyddogion sy'n gyfrifwyr â chymwysterau proffesiynol ac sy'n gorfod cyflawni Datblygiad Proffesiynol Gorfodol.
6. Bydd yr egwyddorion arweiniol ar gyfer cynllunio Cyfalaf presennol y Cyngor ac yn y dyfodol yn cynnwys:
  - a) Sicrhau effeithlonrwydd drwy wneud y defnydd gorau o asedau cyfredol sy'n cynnwys tir ac adeiladau a thechnoleg gwybodaeth. E.e. Dylid rhesymoli adeiladau gwag/na ddefnyddir yn ddigonol, lleihau costau refeniw a hefyd cynhyrchu derbyniadau cyfalaf posib.
  - b) Mae angen strategaeth ariannu ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr (wedi'i ariannu gan grant neu fel arall) fel rhan o'r achos busnes sy'n cael ei ddatblygu.
  - c) Bydd y Rhaglen Gyfalaf fel arfer yn cael ei phennu fel na fydd dim Benthycia Darbodus yn cael ei wneud i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf graidd ac eithrio pan fydd yn ariannu prosiectau Cyfalaf penodol. Bydd angen achos busnes i gefnogi Benthycia Darbodus e.e. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio benthycia



darbodus pan fydd yn bosib clustnodi arbedion refeniw a ddefnyddir i ariannu costau ariannol cyfalaf y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol.

- d) Byddwn yn parhau i ystyried cynlluniau buddsoddi i arbed sy'n sicrhau arbedion refeniw yn dilyn buddsoddiad cyfalaf cychwynnol fel blaenoriaeth uchel am eu bod yn medru darparu cyfraniad positif i sefyllfa gyllidebol refeniw yn y tymor canolig (e.e. mesurau Effeithlonrwydd Ynni). Bydd hyn hefyd yn medru cynnwys cynlluniau sy'n fuddsoddiad cyfalaf er mwyn osgoi cynnydd mewn costau yn y dyfodol.
- e) Clustnodi, ysgogi a gwneud y gorau o gyfleoedd cyllid grant allanol lle y bo hynny'n bosib, er ar ei ben ei hun mae'n bosib nad yw hyn bob amser y prif beth sy'n gyrru prosiectau cyfalaf.
- f) Dylid ystyried strategaethau ymadael fel rhan o unrhyw gais am gyllid grant a grantiau y llwyddwyd eu denu.
- g) Caiff cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi eu cynnal drwy ddarparu arian am un tro yn unig i gefnogi'r rhaglen Gyfalaf. Mewn achosion lle gellir cyflawni arbedion refeniw cyn gofynion y gyllideb flynyddol mae'n bosib y cânt eu dynodi i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn cefnogi blaenoriaethau Cyfalaf yn y dyfodol.
- h) Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad positif i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a cânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Caiff rhestr o'r asedau arfaethedig y bwriedir eu gwaredu ei chynnal a'i monitro'n rheolaidd. Pan fydd angen ystyrir yn briodol unrhyw achos lle bydd asedau mawr yn cael eu gwaredu.
- i) Os bydd Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gael gan Lywodraeth Cymru bydd yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio fel, pryd ac os bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fel swyddog Adran 151 yn ystyried hyn yn briodol:
- j) Bydd y Cyngor yn parhau i feddu ar Eiddo Buddsoddi fel rhan o'i Ystâd Gorfforaethol. Mae hwn yn weithgarwch masnachol wrth i'r Cyngor geisio roi eiddo ar brydles ar bris y farchnad a thrwy hynny cael adenillion masnachol o'r eiddo. Ar hyn o bryd mae gweithgarwch masnachol y Cyngor yn risg isel am nad yw'n elfen sylweddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Petai unrhyw gyfleoedd newydd yn dod ar gael bydd angen llunio achos busnes fydd yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cod Materion Ariannol (Rhagfyr 2021) sy'n gwahardd benthyca mewn sefyllfaoedd lle bo sicrhau adenillion ariannol yn brif nod, a bod defnyddio cyngor mewnol/allanol arbenigol lle y bo'n briodol yn ogystal â dilyn y trefniadau llywodraethu priodol.
- k) Ymgwymerir â diwydrwydd dyladwy priodol mewn perthynas â natur, graddfa a maes gweithgarwch wrth ystyried grantiau Cyfalaf i 3<sup>ydd</sup> partiön o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

7. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol yn ei Raglen Gyfalaf:

- a) Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth gynnwys
  - Gweithio gyda'r sector preifat a chyhoeddus ar draws y rhanbarth drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro, er mwyn hybu'r economi leol a rhanbarthol.
  - Gweithredu Strategaeth Economaidd Ceredigion
  
- b) Creu cymunedau gofalgwr ac iach gan gynnwys
  - Darparu arian ar gyfer grantiau Cyfleusterau mandadol a dewisol i'r Anabl.
  - Adolygu a datblygu cynlluniau llety preswyl arbenigol naill ai gan y Cyngor neu ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill.
  - Cylch Caron – prosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal Tregaron
  - Sefydlu canolfannau lles
  
- c) Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu o bob oed gan gynnwys
  - Parhau i foderneiddio Ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a llwybrau ariannu eraill.
  
- d) Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd gyda chysylltiadau da gan gynnwys
  - Datblygu cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir
  - Rheoli Carbon - Ceisio lleihau ymhellach gollyngiadau carbon a gostwng costau ynni gymaint â phosib er mwyn mynd i'r afael â chynnydd yn y dyfodol drwy alluogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn asedau'r Cyngor yn ogystal â'r stoc breifat a stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
  - Cerbydau newydd – Adolygu fflyd ehangach yr awdurdod ar draws holl wasanaethau a phontio tuag at fflyd Cerbydau Allyriadau Isel lawn.
  - Gwelliannau hanfodol i Adeiladau, Pontydd a Ffyrdd.

**DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL (DROS DRO)**

	31/03/24	31/03/25	31/03/26
	Balansau Gwirioneddol £	Balansau Rhagamcanol £	Balansau Rhagamcanol £
Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion - Cynradd	(1,845,474)	(1,500,000)	(1,500,000)
Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion - Uwchradd	(975,836)	(500,000)	(500,000)
Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion - Gydol Oed	(973,718)	(800,000)	(800,000)
<b>Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion - Pob Ysgol</b>	<b>(3,795,028)</b>	<b>(2,800,000)</b>	<b>(2,800,000)</b>
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	(596,000)	(480,000)	(480,000)
<b>Ysgolion a Dysgu Gydol Oes</b>	<b>(4,391,028)</b>	<b>(3,280,000)</b>	<b>(3,280,000)</b>
Cyfalaf Corfforaethol	(5,655,958)	(5,655,958)	(2,876,958)
Addysg - Menter Cyllid Preifat Penweddig	(1,313,000)	(1,016,000)	(716,000)
Cyllid / Cyfartalu Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor	(700,000)	(700,000)	(700,000)
Diswyddiadau Corfforaethol	(1,062,000)	(190,000)	(190,000)
Yswiriant	(1,346,000)	(1,446,000)	(1,446,000)
Cyllid - Cyffredinol	(525,000)	(525,000)	(425,000)
<b>Cyllid a Chaffael</b>	<b>(10,601,958)</b>	<b>(9,532,958)</b>	<b>(6,353,958)</b>
Gwasanaethau Democraidaidd	(112,000)	(112,000)	(96,000)
Cronfa wrth gefn etholiadau'r Cyngor Sir	(35,000)	(35,000)	(35,000)
<b>Gwasanaethau Democraidaidd</b>	<b>(147,000)</b>	<b>(147,000)</b>	<b>(131,000)</b>
Porth Cymorth Cynnar	(2,000)	(2,000)	(2,000)
Buddsoddiad y Pyrth	(250,000)	(250,000)	(250,000)
Porth Gofal	(404,000)	(354,000)	(354,000)
<b>Model Gydol Oes y Pyrth</b>	<b>(656,000)</b>	<b>(606,000)</b>	<b>(606,000)</b>
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	(127,000)	(127,000)	(127,000)
<b>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</b>	<b>(127,000)</b>	<b>(127,000)</b>	<b>(127,000)</b>
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	(1,104,000)	-	-
Cynnal a Chadw dros y Gaeaf / Atgyweirio ar ôl Stormydd	(155,000)	(155,000)	(155,000)
Diogelu'r Amgylchedd ac Amddiffyn rhag Llifogydd	(177,000)	(177,000)	(177,000)
Gorfodi Parcio Sifil	(182,000)	(182,000)	(182,000)
<b>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>	<b>(1,618,000)</b>	<b>(514,000)</b>	<b>(514,000)</b>
Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Strategol Canolbarth Cymru	(233,000)	(233,000)	(233,000)
Economi ac Adfywio	(93,000)	(93,000)	(93,000)
Canolfan Bwyd Cymru (Horeb)	(651,000)	(651,000)	(651,000)
Bargen Dwf Canolbarth Cymru	(119,000)	(19,000)	(19,000)
Rhaglen Gwella Gwaith Trin Carthion	(451,751)	(403,751)	(28,751)
<b>Economi ac Adfywio</b>	<b>(1,547,751)</b>	<b>(1,399,751)</b>	<b>(1,024,751)</b>
Buddsoddiad TGCh a Digidol	(1,000,000)	(809,000)	(463,000)
Amnewid Isadeiledd TGCh Ysgolion	(262,000)	(262,000)	(262,000)
Cyswllt Cwsmeriaid	(256,000)	(106,000)	(106,000)
<b>Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol</b>	<b>(1,518,000)</b>	<b>(1,177,000)</b>	<b>(831,000)</b>

**DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL (DROS DRO)**

	31/03/24	31/03/25	31/03/26
	Balansau Gwirioneddol £	Balansau Rhagamcanol £	Balansau Rhagamcanol £
Rheoli'r Gyllideb ac Arian Wrth Gefn	(2,757,000)	(1,527,000)	(1,527,000)
Pwysau o ran Costau a Chwyddiant	(788,000)	(788,000)	(788,000)
Cydraddoli Lleoliadau	(500,000)	(799,000)	(299,000)
Cynllun Tai Cymunedol (Premiwm Treth y Cyngor)	(2,557,000)	(2,157,000)	(2,000,000)
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu	(3,370,259)	(7,259)	(7,259)
Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth	(7,500,000)	(7,150,000)	(6,415,000)
Creu cymunedau gofalgar ac iach	(2,012,000)	(762,000)	(62,000)
Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	(3,893,000)	(1,362,000)	(345,000)
<b>Y Grŵp Arweiniol</b>	<b>(23,377,259)</b>	<b>(14,552,259)</b>	<b>(11,443,259)</b>
<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>(43,983,996)</b>	<b>(31,335,968)</b>	<b>(24,310,968)</b>
<b><u>BALANSAU CYFFREDINOL</u></b>			
Balansau Cyffredinol	(6,704,407)	(6,704,407)	(6,704,407)
<b>Cyfanswm y Balansau Cyffredinol</b>	<b>(6,704,407)</b>	<b>(6,704,407)</b>	<b>(6,704,407)</b>
<b>CYFANSWM TERFYNOL</b>	<b>(50,688,402)</b>	<b>(38,040,374)</b>	<b>(31,015,374)</b>